


Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## TROSOLWG A CHRAFFU

2022-23



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Galw penderfyniadau i mewn | 2 |
| Pwyllgor Cydlynu | 6 |
| Adnoddau Corfforaethol | 13 |
| Cymunedau Iachach | 25 |
| Cymunedau sy'n Dysgu | 32 |
| Cymunedau Ffyniannus | 42 |


Caru·Love Ceredigion

# Cyflwyniad

**BETH YW TROSOLWG A CHRAFFU?**

Mae pwyllgorau craffu'n rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gofyniad i sefydlu gweithrediaeth sy'n gwneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 hefyd yn peri iddi fod yn ofynnol sefydlu un neu ragor o bwyllgorau craffu i ddwyn y penderfynwyr i gyfrif, i hybu gwelliannau, i weithredu fel llais y gymuned, ac i gynorthwyo â'r gwaith o lunio ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn argymell pedair prif egwyddor i gynorthwyo Aelodau i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol:

i. Herio'r rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau fel 'cyfaill beirniadol';
ii. Sicrhau bod llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau'n cael eu clywed;
iii. Sicrhau mai 'llywodraethwyr annibynnol eu meddwl' sy'n arwain ac yn perchnogi'r broses graffu;
iv. Sicrhau bod y broses yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hybu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus.

Mae *Canllawiau Statudol i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen* (2006) yn esbonio bod *pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o'r trefniadau gweithrediaeth.*

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn o'r enw Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad. Roedd y papur gwyn yn gofyn am sylwadau ar gynigion i beri iddi fod yn orfodol gweithio ar sail ranbarthol i ddarparu gwasanaethau amrywiol, i fynd i'r afael â materion gweithlu, ac i fynd ati i ddiwygio'r drefn etholiadol. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyrdd sy'n egluro ei dyheadau ac yn amlinellu datganiad o'i bwriad i gryfhau ac i rymuso llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn amlinellu dull o sicrhau y bydd modd i lywodraeth leol fynd ati yn y dyfodol "i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cryfach, mwy cadarn a chynaliadwy, gydag atebolrwydd democrataidd yn graidd iddi".

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi cynnal cyfarfodydd hybrid, ac rydym felly wedi bod yn craffu ar waith y Cyngor yn y Siambr ac o bell.

**GALW PENDERFYNIADAU I MEWN**



Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, aelod o'r Cabinet neu un o bwyllgorau'r Cabinet, neu pan wneir penderfyniad dan drefniadau ar y cyd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys drwy ddulliau electronig lle bo hynny'n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor cyn pen dau ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud fel rheol. Bydd y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad yn anfon copi o'r cofnodion at yr Aelodau cyn pen dau ddiwrnod gwaith. Bydd yr hysbysiad yn dangos dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad ac yn nodi y bydd yn dod i rym, ac y gellir ei roi ar waith, ar ôl i bum diwrnod gwaith fynd heibio ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai fod tri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y mae ei gylch gorchwyl yn gysylltiedig â phenderfyniad y Cabinet (fel y nodir yn Erthygl 6 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad) neu chwe Aelod Etholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, yn gwrthwynebu'r penderfyniad a'i alw i mewn. Ceir mwy o wybodaeth am y broses o alw penderfyniadau i mewn ar dudalen 295 o Gyfansoddiad y Cyngor. http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ynglyn-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ni alwyd yr un o benderfyniadau Cyngor Sir Ceredigion i mewn.

**Y PWYLLGORAU**

Ceir pum pwyllgor trosolwg a chraffu thematig:

- Cydlynu 

- Cymunedau Ffyniannus 




- Cymunedau sy’n Dysgu




- Cymunedau Iachach




- Adnoddau Corfforaethol

O dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang i'r pwyllgorau, ynghyd â'r gallu i lunio adroddiadau ac i wneud argymhellion o ran unrhyw fater sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Yn ôl y canllawiau, swyddogaethau'r cynghorwyr sy'n ymgymryd â gwaith trosolwg a chraffu yw:

i. dal y weithrediaeth i gyfrif am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth mewn modd effeithlon – yn enwedig perfformiad y weithrediaeth fel y'i mesurir yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodwyd yn y polisïau a'r cynlluniau y mae'n eu rhoi ar waith;
ii. helpu i wella ac i ddatblygu polisïau'r Cyngor drwy bwyso a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisïau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r Cyngor llawn;
iii. adolygu a llunio adroddiadau ar faterion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei drigolion; ac
iv. ystyried a yw'r systemau sydd yn eu lle gan y weithrediaeth i gyflawni ei swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu dilyn yn briodol.

Yn ychwanegol at hyn, gallant adolygu sut y mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a llunio adroddiadau am faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol.

Gallai hyn gyd-fynd â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy adnabod meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn amlinellu rôl glir ar gyfer swyddogaeth graffu'r awdurdod yn ei brosesau gwella: fel rhan o'i rôl o ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol a llunwyr polisïau i gyfrif, a'i rôl ym maes datblygu polisi. Dylai hyn ymestyn i:

i. graffu ar y prosesau y mae'r awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
ii. craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
iii. craffu ar y prosesau y mae'r awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
iv. craffu ar fonitro cynnydd wrth gyflawni amcanion gwella'r awdurdod;
v. hyrwyddo arloesi drwy herio'r sefyllfa bresennol ac annog ffyrdd gwahanol o feddwl a dewisiadau ar gyfer cyflenwi.

O dan adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod gan ei bwyllgorau trosolwg a chraffu bŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr awdurdod lleol, neu'r camau a gymerir ganddo, pan fydd yn arfer ei swyddogaethau.

Yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, bu aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n trin a thrafod materion a oedd yn ymwneud â chraffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (y Bwrdd).

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac i sicrhau bod trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol ar waith ar gyfer y Bwrdd, cytunwyd y byddai Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.

Cytunodd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion i ddefnyddio'r dull a ganlyn i gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd:

Adolygu'r **penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd** gan y Bwrdd, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:

- Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol
- Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol
- Derbyn yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol
- Derbyn cofnodion y Bwrdd
- Derbyn adroddiadau monitro perfformiad.

i. Adolygu **trefniadau llywodraethu'r** Bwrdd, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:

   - Derbyn cylch gorchwyl y Bwrdd ar ôl pob un o gyfarfodydd gorfodol y Bwrdd (rhaid cynnal cyfarfod gorfodol o'r Bwrdd cyn pen 60 diwrnod ar ôl pob etholiad arferol i ethol cynghorwyr fan bellaf).
   - Gwahodd aelodau o'r Bwrdd i roi tystiolaeth o ran y modd y mae cyd-swyddogaethau'n cael eu harfer (ond dim ond o ran arfer y cyd-swyddogaethau a roddwyd iddynt fel aelod statudol o'r Bwrdd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

ii. Llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd o ran ei swyddogaethau neu ei drefniadau llywodraethu.

iii. Cyfeirio materion at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Thematig Perthnasol i'w ystyried ymhellach fel y bo'n briodol.

iv. Cyflwyno argymhellion y Pwyllgor Craffu i'r Cabinet, y Bwrdd a'r is-grŵp perthnasol.

**Gall y pwyllgorau craffu gyflawni eu gwaith drwy un o'r ffyrdd a ganlyn:**

i. Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol;

ii. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i bwnc mewn mwy o fanylder;

iii. Ystyried pwnc mewn ffrwd waith (gweler yr adran am y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar dudalen 39 isod), ac

iv. Ymweld â safleoedd.

Bu'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y gallent ddylanwadu fwyaf ar y canlyniadau i bobl Ceredigion. O ganlyniad, aeth y pwyllgorau ati i adolygu pynciau amrywiol, ac mae rhai o'r adolygiadau hyn yn dal i fynd rhagddynt.


Mae aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi gweithio'n galed i greu diwylliant lle mae tryloywder, cyfranogiad ac atebolrwydd yn cael eu croesawu a lle mae her yn cael ei hystyried yn rhan anhepgor a chadarnhaol o'r broses o wella canlyniadau. Mae'n dal i fod yn hanfodol bod y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor drwy eu rôl fel cyfaill beirniadol.

**Hunanwerthuso'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Bob blwyddyn, cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Gellir llenwi'r holiadur ar-lein. O ran holiadur 2022/23, daeth 15 ymateb i law (allan o gyfanswm posibl o 38).

## Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 8 achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2022/2023.



Ymhlith yr eitemau safonol a drafodir ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y mae diweddariad am ddatblygiadau o ran y swyddogaeth graffu, a diweddariad gan y Cadeiryddion am waith eu pwyllgorau. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith y pwyllgorau thematig.

Y prif faterion a drafodwyd

Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwylio holl flaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i sicrhau eu bod yn berthnasol, eu bod yn gydnaws â'r blaenoriaethau corfforaethol, a'u bod yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sicrhau bod y blaenraglenni gwaith yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu, gan sicrhau eu bod yn realistig ac yn ymarferol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a'u bod yn debygol o ychwanegu gwerth. Mae pob pwyllgor yn cytuno i ystyried ei flaenraglenni gwaith ei hunan.

Ystyriodd y Pwyllgor yr eitemau canlynol:

**CONTEST - Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU**.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau a oedd ar waith i gyflawni'r strategaeth CONTEST yng Ngheredigion, ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol. Hefyd, roedd yr adroddiad yn nodi cyfraniad staff y Cyngor wrth gyflawni'r gwaith pwysig hwn.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

CYTUNWYD i nodi'r diweddariad a roddwyd.

**Y Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a'r Cyflwyniad i drefniadau Hunanasesu Perfformiad yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Mynegwyd y canlynol:

- Gofynnwyd am eglurhad o ran pwy fyddai'n archwilio'r archwilydd a beth fyddai'r broses apelio yn dilyn yr asesiadau hyn. Mewn ymateb, dywedwyd mai proses hunanasesu oedd hon. Bydd llawer iawn o dystiolaeth berthnasol ac ategol yn cael ei chasglu i gydymffurfio â gofynion yr asesiad, yn unol â'r Cynllun Gweithredu. Ar ôl ei gwblhau, cyflwynir yr asesiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn iddo bwyso a mesur yr adroddiad ac ystyried argymhellion, cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo.
- Y gallai hunanasesiad blynyddol y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd gyfrannu at yr hunanasesiad hwn. Anogwyd yr Aelodau i ymateb i'r asesiad hwn mewn ffordd agored a thryloyw er mwyn datrys unrhyw anawsterau.
- Bod Cadeiryddion yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynychu cyfarfodydd Chwarterol y Bwrdd Perfformiad a oedd ar fin ailddechrau, er mwyn iddynt ystyried unrhyw faterion/risgiau perthnasol ar gyfer eu Blaenraglenni Gwaith. Adroddwyd bod y cyfarfodydd hyn yn rhoi trosolwg o'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo Datganiad drafft y Polisi Rheoli Perfformiad a'r trefniadau Hunanasesu Perfformiad (yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

**Adroddiadau rheolaidd ynglŷn â chyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**
**Yr Asesiad o Lesiant Lleol**
**Adroddiad Blynyddol Llesiant Lleol Ceredigion 2021-2022**
**Fersiwn Ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28.**
O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol yn ymwneud â chyflawni eu Cynlluniau Llesiant. Mae'n ofyniad statudol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn craffu ar adroddiadau blynyddol.

Hefyd, daeth Prif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Gwnaeth y Pwyllgor:

- dderbyn cofnodion drafft cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion;
- derbyn Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion;

- cytuno y byddai’r Aelodau yn annog y Cynghorau Tref a Chymuned i lenwi arolwg ymgysylltu Cynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (roedd y Cynghorau Tref a Chymuned wedi derbyn yr holiadur drwy e-bost).
- derbyn fersiwn ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28.

**Adroddiad Monitro’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion pob unigolyn yn ein gwaith bob dydd. Mae’r Ddeddf yn cynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol i Gymru sy’n ei gwneud hi’n ofynnol i’r Cyngor bennu Amcanion Llesiant mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac mae’n rhaid adolygu’r cynllun bob pedair blynedd.

Mae’r modd y caiff y Gymraeg ei hybu a’i defnyddio yn cael sylw ym Mesur y Gymraeg 2011, yn hytrach na’r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, rydym yn ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo dull cyfannol.

Mae cynllun gweithredu yn sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 y Cyngor yn cael ei gyflawni, a chaiff ei rannu’n 5 Amcan Cydraddoldeb.

Tynnwyd sylw’r Pwyllgor at y prif bwyntiau.

***<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>***

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i dderbyn Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2021-22, gan argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo’r adroddiad.

**Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2022**

***<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>***

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i dderbyn yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022 a’r Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2022.

**Adroddiad Hunanasesu 2021/22**

Mae Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn disodli Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a arferai fodoli ac mae’n cyflwyno cyfundrefn berfformiad newydd ar gyfer Prif Gynghorau yn seiliedig ar Hunanasesu. Bwriad y gyfundrefn berfformiad newydd yw adeiladu a chefnogi diwylliant lle mae cynghorau yn ceisio gwella a gwneud yn well yn barhaus ym mhopeth a wnânt, heb ystyried pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Mae’r Ddeddf yn disgwyl y bydd cynghorau bob amser yn ymdrechu i gyflawni mwy a cheisio sicrhau’r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau lleol. Un ffordd o wneud hyn yw herio’r sefyllfa bresennol yn barhaus a gofyn cwestiynau ynghylch sut y maent yn gweithredu.

***<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>***

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Dylid sicrhau bod y buddion cymunedol yn parhau a'u bod yn rhai gwerthfawr.
- Dylid cefnogi contractwyr lleol i gydweithio ar dendrau ar gyfer contractau mwy o faint.
- Awgrymodd yr Aelodau y dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu gwasanaethau hyd braich.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn Adroddiad Hunanasesu 2021/22 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a'r Amcanion Llesiant.

**Adroddiadau rheolaidd am Adroddiadau Chwarterol Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol CYSUR, y Grŵp Gweithredol Lleol ar Ddiogelu. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth reoli am y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan asiantaethau eraill o ran diogelu llesiant plant yng Ngheredigion. Trafodir yr wybodaeth reoli gan aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR (Ceredigion) i fonitro ac i werthuso effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae'r cyfarfodydd amlasiantaeth yn gyfle i bennu problemau o ran perfformiad a materion eraill yn y maes hwn, ac i weithredu ar eu sail. Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau chwarterol y Gwasanaeth Diogelu Oedolion. Mae'r adroddiadau hyn yn tynnu sylw at weithgarwch a pherfformiad y Gwasanaeth Diogelu Oedolion ac yn rhoi data ystadegol i sicrhau bod modd cymharu gweithgarwch o chwarter i chwarter ac o flwyddyn i flwyddyn, yn ogystal â nodi'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r prif feysydd gwaith a'r prif welliannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Gwnaeth y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol. Bu i'r Aelodau ofyn cwestiynau'n rheolaidd ynglŷn â chynnwys yr adroddiadau a'r data a gyflwynwyd ac atebwyd y cwestiynau gan y swyddogion. Gallwch weld y cwestiynau a'r atebion yn y cofnodion.

**Cofnod Penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur Covid-19.**

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cytunodd y Pwyllgor i nodi cynnwys cofnod penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur Covid-19 ar gyfer y cyfnodau dan sylw.

**Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)**

Mae Aelodau'r Pwyllgor Cydlynu yn gyfrifol am adolygu defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Cyflwynir yr adroddiadau i'r Pwyllgor bob 6 mis.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

**Adroddiad ar yr adolygiad o Bolisi RIPA ac Arolygiad IPCO (Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio)**

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd Aelodau'r Pwyllgor:

- Nodi cynnwys y copi drafft diwygiedig o Bolisi Corfforaethol RIPA a'r Ddogfen Weithdrefnau,
- Nodi cynnwys Adroddiad Arolygiad IPCO,
- Nodi cynnwys ymateb yr Uwch-swyddog Cyfrifol i Adroddiad Arolygiad IPCO,
- Nodi cynnwys y Cais E-bost wedi'i ddiweddaru am Weithgarwch RIPA, a,
- Nodi cynnwys Cylchlythyr Chwarterol IPCO ar gyfer Hydref 2022.

**Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2021/2022**

Tynnodd yr adroddiad sylw at y prif faterion a ystyriwyd gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod 2021/2022. Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar y dudalen Trosolwg a Chraffu ar wefan y Cyngor.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cytunodd yr Aelodau i nodi'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cyn y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor.

**Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft 2022-27**

Roedd angen paratoi Strategaeth Gorfforaethol newydd i nodi Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd y Cyngor (blaenoriaethau corfforaethol) a'r uchelgeisiau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion a chynyddu ei gyfraniad tuag at y saith Nod Llesiant Cenedlaethol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Hefyd, dywedodd yr Arweinydd hefyd fod gan yr Awdurdod gyfnod heriol o'i flaen.

Yr Amcanion Llesiant Corfforaethol arfaethedig yw:

- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu
- Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd

Esboniwyd bod yr amcanion wedi'u nodi trwy ddadansoddi tystiolaeth ac ymgysylltu gyda thrigolion, gan gynnwys uchelgeisiau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd,

Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar y strategaeth ddrafft.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cododd un Aelod o'r Pwyllgor bryder gan ofyn a allai'r Awdurdod fforddio'r targedau uchelgeisiol a amlinellwyd yn yr adroddiad. Cadarnhawyd bod modd eu cyflawni ar hyn o bryd.

Mynegwyd pryder ynghylch Ffosffadau gan y gallai atal yr amcan HYBU'R ECONOMI, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH rhag symud ymlaen. Cadarnhawyd bod yna grŵp penodol sy'n monitro'r sefyllfa ffosffadau yn ofalus ac sy'n cynnal trafodaethau parhaus gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr hefyd fod Ffosffadau yn cael ei nodi fel risg ar hyn o bryd a'i fod ar gofrestr risg yr Awdurdod ac felly gallai gadarnhau bod y mater hwn yn cael sylw dyledus. Roedd hyn hefyd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn ystod y flwyddyn.

Gofynnwyd rhagor o gwestiynau i'r swyddogion ac aethant i ffwrdd i ymchwilio i'r materion dan sylw cyn dychwelyd i'r Pwyllgor i roi'r atebion. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod arall yn ddiweddarach i ystyried yr ymatebion ymhellach ac i wneud argymhelliad cyn i'r Strategaeth fynd gerbron y Cabinet a'r Cyngor llawn.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell i'r Cabinet gymeradwyo Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027, gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol, yn amodol ar ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

**Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog, fel y'i nodwyd yn Neddf y Lluoedd Arfog 2021**

Cafodd y Pwyllgor wybod am y sefyllfa a oedd ohoni. Wrth gyflawni ei ymrwymiadau presennol, roedd y Cyngor yn rhoi sylw dyladwy i ofynion Cymuned y Lluoedd Arfog, ac roedd wedi ceisio adeiladu'n gadarnhaol ar ei ymrwymiad ers gwneud ei addewid cychwynnol. Roedd hyn wedi arwain at wneud gwelliannau uniongyrchol i bolisïau'r Cyngor fel rhan o'i ymrwymiad i'r Cyfamod. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y polisi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a oedd yn cefnogi opsiynau gweithio hyblyg. Roedd y polisi hwn hefyd yn cydnabod yr angen clir i aelodau'r lluoedd arfog a milwyr wrth gefn gael cyfnodau awdurdodedig ychwanegol o absenoldeb i gefnogi eu hymrwymiadau ychwanegol.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Yn ogystal â'r gwaith yr oedd y Cyngor eisoes yn ei wneud, cynigiwyd y byddai'r camau ychwanegol canlynol yn cael eu cymryd wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd:

- Archwilio cyfleoedd i wella'r prosesau a ddefnyddir gan y gwasanaethau i gasglu data. Byddai Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog yn darparu cyngor am y categorïau y byddai angen i'r gwasanaethau unigol eu defnyddio.
- Nodwyd bod cyllid grant ar gael i blant (hyd at £2,000 y plentyn) yn ddibynnol ar anghenion.

- Byddai gweithwyr ac aelodau etholedig yn cael eu hannog i wneud trefniadau ar CERINET i fynd i'r sesiynau codi ymwybyddiaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog.

**Diweddariad ar Brosiect Cylch Caron**

Rhoddodd swyddogion y Cyngor a Chyfarwyddwr Sirol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ddiweddariad ar brosiect Cylch Caron. Dywedwyd bod hwn yn brosiect partneriaethol rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â Llywodraeth Cymru.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth:

- Byddai angen cyflwyno cais cynllunio newydd ar ôl i bartner newydd gael ei benodi. Roedd yr elfen ffosffadau yn parhau'n risg. Roedd posibilrwydd hefyd y gallai'r dyluniad fod yn wahanol i'r dyluniad gwreiddiol.
- A fyddai modd gofyn am gymorth cwmnïau adeiladu lleol lle bynnag bo modd gwneud hynny? Roedd posibilrwydd y gellid annog y partner newydd i gyflogi contractwyr lleol.
- Cadarnhawyd y byddai gofyniad i adolygu'r pecyn ariannu ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar ôl i'r broses dendro gael ei chwblhau.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhawyd ei bod yn holl bwysig bod y cynllun yn cael ei gyflawni.
- Mewn ymateb i gwestiwn arall, cadarnhawyd bod y tir wedi'i ddiogelu.

Cytunwyd y byddai'r Swyddogion yn dychwelyd i roi diweddariad unwaith y byddai'r broses dendro wedi'i chwblhau.

**Adroddiad ynglŷn â'r Diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban**

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cytunodd y Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban.

**Cyllideb ddrafft 2023/24**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ar gyllideb ddrafft 2023/2024 gan gynnwys rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn, a nododd mai setliad dros dro oedd hwn.


***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cytunodd yr Aelodau ar sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel yr oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad i'r Cabinet a bu iddynt ofyn am i fwy o fanylion gael eu cyflwyno pan fyddai'r pwyllgorau craffu thematig yn ystyried y gyllideb.

Mae'r Pwyllgor yn monitro'r goblygiadau i'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn ac mae'n cael diweddariadau ariannol rheolaidd pan fydd yn ystyried adroddiadau.

## Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol chwe gwaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2022/2023.



Y prif faterion a drafodwyd

Swyddogaeth y Pwyllgor hwn yw cyflawni holl swyddogaethau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cwsmeriaid, TGCh, rheoli'r trysorlys a gwasanaethau cyfreithiol), cynhwysiant/cyfle cyfartal, argyfyngau sifil, parhad busnes, rheoli ystadau a chofrestru sifil.

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 27 Mai 2022 i ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor hwn. Etholwyd y Cynghorydd Rhodri Evans yn Gadeirydd ac etholwyd y Cynghorydd Geraint Hughes Is-gadeirydd.

Ar 21 Mehefin, 2022, cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd newydd y cyngor, adroddiad ynghylch y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Gweithio Hybrid a'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro. Dywedwyd bod pandemig Covid-19 wedi gorfodi cyfyngiadau cenedlaethol ar symud a bod hynny wedi digwydd yn sydyn ac wedi arwain at y gofyniad i aros gartref a gweithio gartref lle bynnag y bo modd. Roedd y mesurau hyn wedi ei gwneud hi'n ofynnol i'r rhan fwyaf o staff swyddfa'r Cyngor weithio mewn ffordd wahanol iawn. Ymatebodd y staff yn gyflym ac yn gadarnhaol i'r newid hwn. Ar y cyfan, roedd yr ymateb cadarnhaol hwn yn bosibl o ganlyniad i'r camau a oedd eisoes wedi'u cymryd o ran ffordd fwy hyblyg a doethach o weithio, gan gynnwys buddsoddi mewn offer a meddalwedd digidol, a gwella'r trefniadau gweithio hyblyg presennol a oedd eisoes ar waith.

Ar ôl ymateb yn dda i heriau cychwynnol y pandemig, dywedwyd bod y ffocws wedi symud i sut y gallai'r Cyngor ddysgu ac adeiladu o'r profiad. Sefydlwyd prosiect o'r enw 'Y Ffordd yr Ydym yn Gweithio' i adolygu'r arferion gweithio o bell a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig. Nod y prosiect oedd archwilio'r awydd am newid hirdymor o fewn y gweithlu gan sicrhau mai darparu gwasanaethau oedd y prif

ffocws o hyd. Roedd y prosiect yn gyfle i archwilio i ba raddau yr oedd yna newid yn y weledigaeth strategol ehangach o ran ble, pryd a sut y byddai'r sefydliad yn mynd ati i weithio.

Yn rhan o'r prosiect, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu sylweddol â staff i gasglu adborth, profiadau, syniadau a gofynion o ran y gweithle yn y dyfodol er mwyn cefnogi penderfyniadau strategol.



**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*CYTUNWYD i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Gweithio Hybrid a'r Polisi Gweithio Hybrid yn amodol ar ystyried y newidiadau canlynol:*

- *Paragraff 3.1.1 – dylai rheolwyr llinell* ***anelu*** *at gynnal cyfweliadau yn rhithwir;*
- *Paragraff 3.1.2 – caniateir i'r rheolwyr llinell gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb os credant fod cyfiawnhad dros wneud hynny;*
- *Paragraff 3.2.2 – dylai rheolwyr fonitro'r defnydd y maent yn ei wneud o e-byst a'r defnydd y mae eu timau yn ei wneud o e-byst rhwng 9pm a 6am er mwyn sicrhau nad oes pwysau ar staff i weithio y tu hwnt i'r oriau hyn.*
- *Argymhelliad bod adolygiad y gweithwyr yn cael ei gynnal ar ôl 6 mis.*

*Ystyriodd y Cabinet yr argymhellion uchod yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2022 a chytunodd y dylai adolygiad y gweithwyr gael ei gynnal ar ôl 12 mis yn hytrach na'r 6 mis a awgrymwyd gan y Pwyllgor Craffu.*

Hefyd, bu i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad am y Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol. Cynigiwyd y dylai'r Cyngor gyflwyno polisi bondiau corfforaethol er mwyn i swyddogion fod ag agwedd glir, deg a chyson at gymeradwyo a llunio bondiau gyda thrydydd partïon. Cyflwynwyd yr adroddiad i sicrhau y gellir cael gafael ar fondiau'n hawdd a'u defnyddio'n hawdd os byddai angen, a bod bondiau a warantwyd gyda thrydydd partïon yn cael eu llunio â thrydydd partïon â statws credyd uchel yn unig er mwyn diogelu sefyllfa'r Cyngor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhellion canlynol:*
*(i) mai bond a geir mewn arian parod oedd dewis y Cyngor.*

*(ii) y byddai bond sy'n cael ei warantu gan drydydd parti yn ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti fod â statws credyd A3 gyda Moody's neu statws credyd A- gyda Standard & Poor's neu Fitch,*
*(iii) argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Bondiau a Sicrwydd.*

*Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r argymhelliad i sicrhau y gellir cael gafael ar fondiau'n hawdd a'u defnyddio'n hawdd os oes angen a bod bondiau a warantwyd gyda thrydydd partïon yn cael eu llunio â thrydydd partïon â statws credyd uchel yn unig er mwyn diogelu sefyllfa'r Cyngor.*

Ar 3 Hydref 2022, ystyriwyd y diweddariad ynghylch Ystâd Ffermydd y Sir. Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan y Swyddogion a'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd Clive Davies.



- Cyflwyniad
- Ystâd Ffermydd y Cyngor Sir
- Casgliadau blaenorol
- Materion cyfredol yn ymwneud ag Ystâd Ffermydd y Cyngor
- Tenantiaethau yn y dyfodol.

***<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>***

*Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i ystyried materion penodol o fewn Ffermydd y Sir yn fanwl ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Adeg ysgrifennu'r adroddiad blynyddol hwn, mae gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn parhau a chaiff canfyddiadau'r Grŵp eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol 2023/2024.*

Hefyd, ystyriwyd yr adroddiad ar Ddatblygu Asedau/Eiddo Gwag a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Clive Davies a'r Rheolwr Corfforaethol. Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:


- CEFNDIR: Cyd-destun Strategol a *Dull Gweithredu ac Adnoddau*
- Gwaith ers Mawrth 2020
- Galw
- Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag
- Ffrydiau Gwaith yn y dyfodol – Prosiectau Strategol, Sicrhau Cydbwysedd Asedau, *Gwaredu / Datblygu Asedau, Asesu Blaenoriaethau.*

*Cytunwyd i argymell y canlynol i'r Cabinet:*

1. *Cadw'r Panel Asedau,*
2. *y byddai adroddiad ynghylch prynu maes parcio Aberteifi yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol ar 19 Rhagfyr 2022,*
3. *ystyried asiant allanol i werthu Asedau'r Cyngor er mwyn cael mwy o gynulleidfa o brynwyr, ac,*
4. *y byddai adroddiad cynnydd ar y gwaith wrth symud ymlaen ar asedau'r Cyngor yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.*

*Bu i'r Cabinet nodi'r adroddiad.*

Yn yr un cyfarfod, trafodwyd yr Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer 2021-2022.




**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor argymell y canlynol i'r Cabinet:*
*(i) nodi a chymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth – 2021/2022 a nodi Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2021-2022; ; a*
*(ii) bod mwy o fanylion yn Adran 4 ar y gwersi a ddysgwyd yn cael eu darparu yn yr adroddiad nesaf a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu.*
*Cytunodd y Cabinet â'r argymhellion a bydd mwy o fanylion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod cyfnod adrodd 2023-2024.*

Ystyriwyd yr adroddiad ar Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddefnyddwyr. Dywedwyd bod Cymorth i Ddioddefwyr wedi datblygu Siarter Troseddau Casineb i sefydliadau lofnodi, er mwyn creu rhwydwaith o gynghreiriaid i gefnogi ei waith gyda dioddefwyr ac i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb a'r ffyrdd o'u riportio ledled Cymru.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Dywedwyd mai'r camau nesaf pe bai Cyngor Sir Ceredigion yn dewis cefnogi'r Siarter oedd y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Chymorth i Ddioddefwyr i drafod y camau perthnasol. Mae rhai sefydliadau wedi canolbwyntio ar hyfforddi staff, rhai ar ledaenu gwybodaeth, ac eraill ar gymysgedd o'r ddau. Ar ôl dod yn bartner 'gweithredol' mae sefydliadau'n gallu defnyddio'r marc ymddiriedaeth ar eu gwefannau, deunyddiau hyrwyddo ac ati.*

*Cytunwyd i argymell i'r Cabinet bod y Cyngor Sir yn ymrwymo i'r hyn a restrir yn Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr.*

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi. Roedd yr adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i'r risg gynyddol o galedi yng Ngheredigion oherwydd effaith Covid-19. Cafodd y cynnydd a wnaed ei fonitro gan Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunwyd y byddai Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 yn cael ei hymestyn i 2023 i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Chynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion sy'n dod i ben yn 2023.

Roedd tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi Ceredigion fel a ganlyn: -

- Dod i ddeall effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion drwy goladu a dadansoddi data ar y cyd ag asiantaethau partneriaethol.
- Cydlynu ac atgyfnerthu gwaith ar y cyd ag asiantaethau partneriaethol gan hyrwyddo ar yr holl gymorth sydd ar gael a manteisio arno.
- Nodi bylchau o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn llunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

  Adroddir ynghylch y cynnydd a wneir o ran y strategaeth hon bob blwyddyn, gan fesur statws Coch, Ambr a Gwyrdd y camau gweithredu y mae Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol amdanynt. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i rannu'n dair colofn ar wahân: Costau Byw Hanfodol, Llesiant Corfforol ac Emosiynol, a Chydnerthedd Cymunedol.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cytunwyd mai'r camau nesaf fyddai:*

- *Parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data i sicrhau bod gan y Cyngor ddealltwriaeth gyffredin o effaith esblygol caledi yng Ngheredigion.*
- *Adolygu'r rhestr o bartneriaid sy'n cyfrannu at y cynllun gweithredu.*
- *Rhagwelir y bydd lefelau tlodi yn parhau i godi yng Ngheredigion, a hynny oherwydd y costau byw cynyddol yn hytrach nag effaith uniongyrchol Covid. Mae'n debygol felly y bydd angen newid ffocws a chaiff y cynllun gweithredu ei adolygu i adlewyrchu hyn.*
- *Sicrhau bod gwaith yr is-grŵp hwn yn cyfrannu at Gynllun Llesiant Lleol 2023-28.*

Ystyriwyd 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd', sef polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion, sy'n disgrifio ein dull corfforaethol o ymgysylltu ac ymwneud â phobl Ceredigion. Cafodd y polisi drafft blaenorol ei ystyried gan y Pwyllgor ar 14 Hydref 2021 lle cymeradwywyd y dylid ymgynghori'n gyhoeddus yn ei gylch yn ystod y gaeaf y flwyddyn honno. Fodd bynnag, gohiriwyd yr ymgynghoriad oherwydd gofynion Rhan 3, adran 41, o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 parthed ymgynghori ac adolygu Strategaeth y Cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Cafodd y polisi Ymgysylltu drafft ei ddiwygio wedyn i gynnwys Cyfranogiad ac fe'i cyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2022. Cytunodd y Cabinet y dylai'r polisi Ymgysylltu a Chyfranogi drafft fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2022. Cafodd y polisi terfynol ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu canfyddiadau'r ymgynghoriad.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Ar ôl trafod ac ystyried y polisi, cytunodd yr Aelodau ar y canlynol gan argymell bod y Cabinet yn:*

- *Derbyn a chymeradwyo'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi – Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd.*

Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, ystyriwyd Adroddiad Ystadegol Uwch Grwner Ceredigion ar gyfer 2021. Dywedwyd bod Uwch Grwner Ceredigion yn paratoi adroddiad blynyddol ar y marwolaethau a adroddir i'r Crwner ('Adroddiad Ystadegol') ac yn ei anfon at y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn ei gyhoeddi fel rhan o Ystadegau'r Crwner ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Roedd Adroddiad y Prif Grwner i'r Arglwydd Ganghellor (Adroddiad a oedd yn cynnwys y Chweched Adroddiad Blynyddol 2018-2019 a'r Seithfed Adroddiad Blynyddol 2019-2020) yn cynnwys Glasbrint Enghreifftiol y Crwner. Roedd yn argymell y dylai'r Uwch Grwner hefyd gyflwyno adroddiad blynyddol byr ('Adroddiad Awdurdod Lleol') i'r Prif Grwner a'r Cyngor bob mis Gorffennaf ac y dylid ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor gan hefyd gynnwys yr ystadegau perthnasol ar yr achosion cyfredol / achosion a oedd wedi cau (gan gynnwys ffigurau i gymharu â blynyddoedd blaenorol), diweddariad ar waith y Crwner a materion perthnasol, crynodeb am dîm y Crwner a'r trefniadau staffio, ac unrhyw gynlluniau at y dyfodol. Ni wnaeth yr Uwch Grwner gyflwyno'r adroddiad yma i'r Cyngor y llynedd a hynny oherwydd llwyth gwaith, galwadau i eistedd yn y llys, a swydd wag ymhlith y staff.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cafwyd diweddariad gan Swyddfa'r Crwner am eu gwaith nhw ar roi organau:*
*"Bu i Mr Steve Lloyd, Swyddfa'r Crwner yn Heddlu Dyfed-Powys, drefnu bod nifer o organau yn cael eu rhoi gan weithio gyda Nyrsys Arbenigol Cymru mewn Rhoi Organau a Mr Jason Shannon, Archwilydd Meddygol Arweiniol cyntaf Cymru. Roedd ymdrechion eithriadol ac arbenigedd Mr Lloyd wedi arwain at arbed nifer o fywydau gan gynnwys baban wyth mis oed. Mae'r profiad a'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r digwyddiad diweddar yma yn rhoi sylfaen dda i grwneriaid Ceredigion ar gyfer cael cyfleoedd yn y dyfodol i hwyluso rhoi organau ac arbed bywydau."*

Cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, dywedwyd bod yr Aelodau, yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19 Hydref 2022, wedi codi cwestiynau ynglŷn â'r ffordd yr aethpwyd ati i brynu safle Feidr Fair yn Aberteifi. Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwn.

***<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>***
*CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth. Dywedwyd hefyd y dylai'r Aelod Lleol wastad gael gwybod am ddatblygiadau yn ei ward. Nid oedd y Cynghorydd Elaine Evans wedi cael gwybod yn yr achos hwn.*

Ystyriwyd adroddiad y Grŵp Datblygu a Grwpiau Ategol eraill (adolygu'r trefniadau presennol a'r cylch gorchwyl). Roedd yr Aelodau wedi gofyn am yr adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Hydref 2022.

Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth am y cefndir, y rhesymau dros adolygu'r trefniadau, y ffordd ymlaen a gynigir, yr aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Cabinet ystyried yr argymhellion canlynol:*

- *Dylai Aelodaeth y Panel Asedau barhau fel y mae ar hyn o bryd gan gynnwys yr Aelodau Cabinet perthnasol a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Mae'n hanfodol sicrhau y ceir ymgynghori parhaus gyda'r Aelod/Aelodau Lleol perthnasol. Dylai'r trefniadau o ran aelodaeth gael eu hadolygu petai'r cydbwysedd gwleidyddol presennol yn newid.*
- *Dylai materion o ran capasiti staffio o fewn y Gwasanaeth Ystadau gael eu hadolygu. Mae angen i'r Awdurdod sicrhau y rhoddir ystyriaeth unigol i bob darn o dir ac eiddo sy'n cael ei werthu/rhentu cyn penderfynu nad oes angen yr ased a'i gynnig ar y farchnad agored. Dylai pob peth a gaiff ei waredu ar y farchnad agored gael ei farchnata'n eang ac yn weithredol i sicrhau y ceir y gwerth gorau.*

*PENDERFYNIAD Y CABINET:*

1. *Cytuno ar aelodaeth y Grŵp Datblygu.*
2. *Cytuno ar y Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer y Grŵp Datblygu, y Grŵp Monitro Cyfalaf, y Grŵp Rheoli Asedau a'r Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol.*
3. *Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.*

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

1. *I oruchwylio'n strategol a rheoli Rhaglen Ddatblygu'r Cyngor mewn ffordd well.*
2. *I wella'r trefniadau ar gyfer cyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor.*
3. *I ddefnyddio amser ac adnoddau yn effeithlon ac effeithiol.*

Hefyd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr, cafwyd adroddiad am Siarter Diwygiedig y Gwasanaethau Cwsmeriaid. Dywedwyd bod y Siarter yn nodi'r dulliau gwahanol o gyfathrebu â'r Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys dros y ffôn, yn electronig (ar y we, ar e-bost) drwy lythyr ac wyneb yn wyneb. Roedd y Siarter yn rhoi rhyw syniad i gwsmeriaid ynghylch pryd y dylent ddisgwyl ymateb ac roedd yn sicrhau y cyfathrebir â chwsmeriaid yn eu dewis iaith a'r dull yr oeddent yn ei ffafrio.

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# SIARTER CWSMERIAID

## YMATEB I ALWADAU FFÔN


- Dylid ateb pob galwad yn ddwyieithog, gyda'r **Gymraeg a'r Saesneg**. Bydd pob sgwrs yn parhau **yn newis iaith y galwr**.
- Disgwylir i alwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu **hateb yn brydlon**.
- Dylid delio ag ymholiadau syml a cheisiadau am wasanaeth ar unwaith.



## YMATEB I LYTHYRAU, E-BYST A CHEISIADAU AM WASANAETH TRWY'R WE A'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



- Dylid cydnabod pob gohebiaeth sy'n gofyn am wasanaethau **o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'i derbyn.**
- Dylid anfon atebion cyn gynted â phosibl ond **o fewn 14 diwrnod ar y mwyaf o'u derbyn.**
- Dylai atebion fod yn **iaith** a chyfrwng yr ohebiaeth wreiddiol.
- Os oes angen ateb llawnach, mwy cymhleth, **rhowch syniad pryd y byddwch yn rhoi ymateb llawn.**
- Os bydd ateb yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, **rhowch wybod i'r defnyddiwr gwasanaeth**, gan esbonio'r rhesymau pam.
- Lle bo modd, bydd ceisiadau am wasanaethau a dderbynnir trwy dudalennau Cyfryngau Cymdeithasol yn cael eu **hailgyfeirio at dîm Clic.**



## SAFONAU CYFATHREBU

- Dylid ysgrifennu pob gohebiaeth mewn **iaith glir**, ac yn **iaith yr ymholiad gwreiddiol.**
- Rhaid defnyddio **pennawd llythyr** corfforaethol ar gyfer pob llythyr. Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn diweddaraf trwy gyrchu penawdau llythyrau trwy'r eicon ar eich bwrdd gwaith.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor i ddefnyddio ffont **Arial** safonol, **maint lleiaf 12** ym mhob gohebiaeth.
- Dylid darparu dogfennau, taflenni, adnoddau electronig ac ati **mewn fformat amgen os gofynnir am hynny** e.e. darparu dogfen mewn print bras, braille, sain, fersiwn hawdd ei darllen neu fersiwn Plant a Phobl Ifanc.
- Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru! **Mae hyn yn golygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg** a dylai siaradwyr Cymraeg gael mynediad at eu gwasanaethau yn eu dewis iaith.










Caru·Love
Ceredigion

Roedd y Siarter yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid y byddai'r Cyngor yn delio â phawb yn gyfartal, mewn modd teg a chwrtais ac y byddai dinasyddion yn cael gwybodaeth am ei wasanaethau a digwyddiadau. Roedd y Siarter yn croesawu sylwadau cadarnhaol a negyddol am wasanaethau'r Cyngor a sut y gellir eu gwella. Roedd y siarter diwygiedig yn awr yn cyd-fynd â'r polisi Cwynion o ran nifer y dyddiau i ymateb i unrhyw ymholiad.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Siarter Cwsmeriaid ddiwygiedig fel y'i cyflwynwyd.*

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad am gyllideb ddrafft 2023/2024 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn ac esboniodd fod y gyllideb yn seiliedig ar setliad dros dro Llywodraeth Cymru a bod disgwyl setliad terfynol Llywodraeth Cymru ar 28 Chwefror 2023.




**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:*

1. *Roedd wedi ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn yr adroddiad ar y gyllideb yn Atodiad A.*
2. *Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.*

3. *Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.*
4. *Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ynghylch ffioedd a chostau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.*
5. *Pleidleisiodd rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor. Felly mae'r Pwyllgor yn argymell cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/2024, sef opsiwn 3b) yn yr argymhellion:*

   ***3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.101m ar gyfer 23/24.***

6. *Ni ddarparwyd unrhyw adborth arall gan y Pwyllgor ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24..*

Ystyriwyd y Cynnig o ran y Cynllun Tai Cymunedol. Dywedwyd bod Tai Fforddiadwy yng Ngheredigion yn un o flaenoriaethau allweddol y Strategaeth Gorfforaethol, y Cynllun Llesiant, y Strategaeth Dai a'r Cynllun Datblygu Lleol a bod y Cyngor yn defnyddio adnoddau sylweddol i greu a rheoli tai fforddiadwy.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Cynnig o ran y Cynllun Tai Cymunedol. Amcan 'Tai Cymunedol' oedd cefnogi pobl i fodloni eu hanghenion o ran tai fforddiadwy yn eu cymunedau drwy greu llwybr i berchentyaeth. Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi cynllun o'r fath ym mis Mawrth 2022.

Yn ystod y trafodaethau, awgrymwyd y dylai'r Swyddogion ystyried y pwyntiau canlynol:

- Bod y Cyngor yn cynnal ei arolwg strwythurol ffurfiol ei hunan ar yr eiddo dan sylw er mwyn asesu ei gyflwr, cyn gwneud cynnig ffurfiol.
- Bod unrhyw gynnig ffurfiol gan y Cyngor i fenthyca yn amodol ar y gwaith a nodir yn arolwg y Cyngor. Dylai'r gwaith gael ei wneud wedyn o fewn amser penodedig – o fewn 6 mis o bosib.
- Roedd yr adroddiad (Atodiad A ym mhapurau'r agenda) yn nodi 'na all benthyciad y Cyngor fod am gyfnod sy'n hirach na chyfnod y morgais sy'n gysylltiedig â hynny' - byddai angen ystyried y modd y mae'r rheiny sydd heb forgais yn ad-dalu'r benthyciad fel y byddent yn ad-dalu pan fo'r eiddo'n cael ei werthu neu ei drosglwyddo am y tro cyntaf.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**

*Cytunwyd i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Tai Cymunedol, yn amodol ar ystyried y canlynol:*
*(i) opsiynau eraill o ran y symiau gohiriedig a gaiff eu sicrhau o dan gytundebau adran 106; gallai hyn gynnwys gofyn am dalu'r swm gohiriedig o flaen llaw i gynorthwyo â'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy yn y sir, a*
*(ii) cynnwys Cynghorwyr fel aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.*

Cytunwyd ar Strategaeth Gweithio Hybrid a Pholisi Hybrid Dros Dro ym mis Gorffennaf 2022, a fyddai'n cael eu treialu am 12 mis. Mae'r strategaeth yn cyflwyno'r weledigaeth a'r dulliau cysylltiedig a roddir ar waith i sicrhau bod gan Gyngor Sir Ceredigion weithlu sydd â'r sgiliau a'r gallu i weithio mewn ffordd sy'n addas at ddyfodol ein sefydliad, mewn lleoliad gwaith sy'n diwallu ei anghenion.

Datblygwyd y Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro i roi gwybodaeth fanwl am yr hyn y mae gweithio hybrid yn ei olygu i'r Cyngor. Mae'n cefnogi gweithwyr a'u rheolwyr i weithio'n hybrid drwy roi gwybodaeth a chyngor ymarferol gan alluogi gweithwyr i weithio'n effeithiol, yn gynhyrchiol a diogel o'r swyddfa neu o'r cartref.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Lluniwyd y Strategaeth Gweithio Hybrid a'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro, drwy ymgysylltu parhaus â staff a rheolwyr a dylanwadodd yr adborth hwn yn fawr ar y dogfennau. Mae ymgysylltu parhaus wedi dangos cefnogaeth sylweddol tuag at ddatblygu'r ffordd y mae staff yn gweithio a sut y caiff gwasanaethau eu cyflenwi. Dengys adborth bod staff yn fwy cynhyrchiol a bod ffyrdd digidol o weithio wedi gwella mynediad at wasanaethau i nifer o gwsmeriaid.*

*Fel rhan o'r treial, cafodd y defnydd o ddesgiau ac ystafelloedd cyfarfod eu monitro ac mae'r data a gasglwyd wedi cyfrannu at newidiadau yn yr ardaloedd hynny Rhoddwyd cyflwyniad byr ar y math o ddata a oedd yn cael ei gasglu. O ystyried y data, daeth yn fwyfwy clir y byddai cyfleoedd sylweddol i ddarparu gwasanaethau newydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghanolfan Rheidol yn Aberystwyth, Penmorfa yn Aberaeron a Neuadd y Sir yn Aberaeron neu wneud defnydd arall o'r adeiladau hyn. Roedd yn bosibl y byddai cyfleoedd i ad-drefnu a defnyddio eiddo arall y Cyngor mewn ffyrdd gwahanol hefyd.*

*Fel enghraifft o'r cyfleoedd, cytunodd y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y byddai rhan o'r llawr gwaelod yng Nghanolfan Rheidol yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol. Byddai hyn ar sail dros dro tra bo'r cyfnod treialu hybrid yn parhau a'r Cyngor yn ystyried y defnydd amgen gorau arall o'i swyddfeydd yn yr hirdymor.*

*Roedd arolwg ymgysylltu wedi dod i ben yn ddiweddar a oedd yn gofyn am farn y cyhoedd am y modd y gellid ailddefnyddio'r adeiladau. Byddai'r adborth hwn, ynghyd â thrafodaethau gyda'r rhanddeiliaid, o gymorth wrth ystyried opsiynau ynghylch y defnydd y gellid ei wneud o'r swyddfeydd yn y dyfodol ar ddiwedd y cyfnod treialu.*

*Cytunwyd i nodi'r sefyllfa bresennol a derbyn adroddiad arall yn un o gyfarfodydd y dyfodol.*

Cyflwynwyd adroddiad am fersiynau diwygiedig y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol, y Ffurflen Datgan Buddiant, a'r Ffurflen Datgan Lletygarwch fel y gallai Aelodau'r Pwyllgor ei ystyried.
Dywedwyd bod adolygiad wedi'i gynnal o'r dogfennau canlynol: -

- Y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol ('y Cod')

- Ffurflen Datgan Buddiannau Swyddogion
- Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion Swyddogion

Wrth adolygu'r dogfennau hyn, paratowyd Asesiad Effaith Diogelu Data ar raddfa fach. Roedd y dogfennau wedi'u cymeradwyo gan y Grŵp Arweiniol, ac roeddent wedi'u rhannu â'r Undebau Llafur perthnasol i gael eu barn.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cyflwynwyd yr holl newidiadau i'r Aelodau.*
*Cytunwyd i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r canlynol:*
*(i) y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol;.*
*(ii) y Ffurflen Datgan Buddiannau; a*
*(iii) y Ffurflen Datgan Lletygarwch*

## Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar chwe achlysur yn ystod 2022/2023.




Y prif faterion a drafodwyd

Daeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol Porth Cynnal i gyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd i gyflwyno Adroddiadau Rheoli Perfformiad chwarterol y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol sy'n cynnwys safonau cenedlaethol a lleol, a'r targedau a ddefnyddir i fesur canlyniadau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a yw hawliau dynol y plentyn/person ifanc wedi'u tramgwyddo mewn unrhyw ffordd ac, os felly, mae'n ystyried atgyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn cyfarfodydd sicrhau ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal Amlasiantaethol sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn.
Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol sy'n cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Lesiant Gydol Oes.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cafodd pwysigrwydd y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ei gydnabod, ac roedd yr Aelodau'n falch o gael sicrwydd bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn cael eu bodloni ac yn gwella'n barhaus. Bu i'r Aelodau longyfarch staff y gwasanaeth, a bu iddynt ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u gwaith caled.*

Cynhaliwyd cyfarfod ar 27 Mai 2023 i ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd i'r Pwyllgor. Etholwyd y Cynghorydd Caryl Roberts yn Gadeirydd ac etholwyd y Cynghorydd Ceris Jones yn Is-gadeirydd.

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol wybodaeth am gefndir Rhaglen Cefnogi Tai 2022-2026 fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at y 4 papur cefndir sy'n ofynnol o dan y canllawiau grant presennol, a nodwyd bod y cynllun 4 blynedd wedi nodi 4 blaenoriaeth strategol a hefyd camau wrth symud ymlaen. Eglurodd bod y cynllun yn cwmpasu'r holl anghenion tai, a bod y strategaeth gyffredinol yn sail iddo.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y rheoliadau rhentu newydd a fyddai'n dod i rym ar 1 Rhagfyr 2022, eglurwyd bod landlordiaid yn gadael y farchnad ac eraill yn cynyddu rhent a bondiau ar gyfer y rhai mwyaf bregus. Roedd llawer o wybodaeth anecdotaidd yn cylchredeg, ond dyma oedd y darlun yn gyffredinol ar draws Cymru.

O ran troi allan 'heb fai', roedd gan y gwasanaeth Opsiynau Tai wasanaeth porth, ac roedden nhw'n gallu cyfeirio pobl at y cymorth cywir. Mae'r Cyngor yn rhan o Gynllun Prydlesu Cymru a'r nod yw gweithio'n agos gyda landlordiaid preifat.

Roedd yr Aelodau wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau gan bobl sydd wedi derbyn hysbysiadau i adael llety rhent preifat oherwydd rhesymau amrywiol. Mae hyn nid yn unig yn effeithio ar iechyd meddwl pobl, ond mae'n lleihau argaeledd llety rhent. Bu i'r Aelodau ganmol Gwasanaeth Dewisiadau Tai Ceredigion am y gefnogaeth yr oedd yn ei roi.

Atgoffwyd yr aelodau i gyfeirio trigolion at y Gwasanaeth Opsiynau Tai os oedd angen cymorth arnynt i ddod o hyd i lety arall. Dywedwyd bod diffyg tai fforddiadwy ac nad oedd y lwfansau tai yn adlewyrchu rhenti'r farchnad breifat.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i argymell y Rhaglen Cymorth Grant a'r Datganiad o Anghenion i'r Cabinet eu cymeradwyo.*

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor am y ffioedd arfaethedig ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021, gan gynnwys y cefndir a'r sefyllfa bresennol. Nodwyd bod y ffioedd arfaethedig mewn ymateb i'r cynnydd mewn pobl a oedd yn gwerthu anifeiliaid anwes yn breifat ac ar-lein yn hytrach na'u bod yn eu prynu o siopau anifeiliaid anwes. Cyfeiriwyd at y sefyllfa bresennol, gan gynnwys y ffaith bod manylion am y ddeddfwriaeth wedi eu cyflwyno drwy'r broses Ddemocrataidd ym mis Tachwedd 2021. Hefyd, rhoddwyd gwybodaeth am Gyfraith Lucy, a oedd eisoes ar waith yn Lloegr. Mae'r ffioedd arfaethedig sydd wedi'u rhestru yn yr adroddiad yn dangos y gwaith ychwanegol sydd gan yr awdurdod i'w wneud a lefel y mewnbwn gan swyddogion.

Cyfeiriwyd at yr hyn a oedd yn rhan o'r cwmpas a'r hyn nad oedd yn rhan o'r cwmpas: Gwerthu Anifeiliaid fel Anifeiliaid Anwes gan gynnwys y Prawf Busnes; meini prawf a oedd o fewn y cwmpas; y canllaw i ddangosyddion rhedeg busnes gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes; y meini prawf y tu allan i'r cwmpas a'r dangosyddion canllaw o weithgareddau a oedd "y tu allan i'r cwmpas" fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**

*Yn dilyn trafodaeth hir, cytunwyd i argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad a'r strwythur ffioedd arfaethedig.*
.

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams, yr Aelod Cabinet dros Lesiant Gydol Oes, adroddiad am y Strategaeth Dementia Ranbarthol a oedd wedi'i datblygu gan Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn dod â sefydliadau o'r sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol at ei gilydd gyda'r cylch gwaith o integreiddio a thrawsnewid iechyd, gofal a chymorth yn y rhanbarth. Roedd y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei reoli drwy'r Grŵp Llywio Dementia a byddai'n allweddol i gyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Strategaeth. Nododd Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar yn y Cabinet fod cynnydd yn nifer y bobl 80+ oed oherwydd bod y genhedlaeth a aned ar ôl yr ail ryfel byd yn cyrraedd yr oedran hwn ac felly byddai'r strategaeth hon yn allweddol wrth symud ymlaen. Rhoddwyd trosolwg o Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i'r pwyllgor, gan gyfeirio at y ddarpariaeth ar hyn o bryd, arferion gorau, adborth o gyfweliadau strwythuredig â rhanddeiliaid a gofalwyr a'r dull o weithredu'r llwybr llesiant dementia.

Cyfeiriodd Donna Pritchard, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, at y Camau Nesaf o safbwynt rhanbarthol a sirol. Yn rhanbarthol, roedd 6 ffrwd waith wedi'u nodi a oedd yn cynnwys Ymgysylltu â'r Gymuned, Ysbytai a Hyfforddiant a Recriwtio. Roedd cynrychiolaeth o'r awdurdod lleol ar bob ffrwd waith. Nodwyd y byddai cysylltwyr llesiant yn gweithio yn y gymuned ac yn gweithio'n agos gyda'r Porth Cymorth Cynnar. Roedd yr awdurdod lleol wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymgynghorwyr i gefnogi datblygu cynllun i gyflawni'r canlyniadau allweddol a nodir yn y strategaeth.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth a gwneud yr argymhellion canlynol i'r Cabinet cyn cymeradwyo'r Strategaeth:*

1. *Pwysigrwydd sicrhau bod dewis iaith defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei ystyried wrth ddarparu gwasanaethau*
2. *Defnyddio adnoddau sydd eisoes yn bodoli gan gynnwys adeiladau*
3. *Trafnidiaeth addas a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir mor lleol â phosibl*
4. *Pwysigrwydd canolfannau dydd sydd ar gael yn lleol i ddefnyddwyr gwasanaethau*

*Cytunodd y Cabinet ag argymhellion y Pwyllgor Craffu.*

Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Heddwyn Evans, Rheolwr Corfforaethol, adroddiad a oedd yn nodi canfyddiadau Adroddiad Diweddaru ar Ansawdd Aer 2022, yn unol â Rhan IV Deddf Amgylchedd 1997 Rheoli Ansawdd Aer Lleol. O ran dyletswyddau monitro statudol a roddwyd ar Gyngor Sir Ceredigion, mae gofyniad i adrodd ar Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) a Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$) yn flynyddol. Mae llygryddion eraill a nodwyd yn y rheoliadau wedi eu heithrio o ofynion adrodd mandadol oni bai

fod tystiolaeth o broblem yn lleol a fyddai angen mynd i'r afael â hi. Yn sgil lleoliad gwledig Ceredigion a diffyg diwydiannau trwm nid yw'r gorfodiant o ran llygryddion sydd wedi eu heithrio o adrodd mandadol yn berthnasol i'r awdurdod. Trwy ddefnyddio tiwbiau tryledu, roedd 11 o safleoedd yn cael eu monitro ar hyn o bryd yng Ngheredigion ar gyfer NO2. Pe bai lefelau NO2 yn cyrraedd nod cymedrig blynyddol o 40µg/m3, byddai Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yn cael ei datgan. O ran PM10, gall achosi problemau iechyd niweidiol. Fodd bynnag, mae monitro PM10 wedi bod yn gyson dda yng Ngheredigion.

Oherwydd cyfyngiadau a blaenoriaethau gwahanol yn ystod pandemig Covid-19, rhoddwyd y gorau dros dro i samplu a dyna pam y ceir 6 mis o adrodd yn yr adroddiad. O safbwynt Sicrhau Ansawdd a Rheoli Ansawdd, defnyddiwyd Ffactorau Addasu Tuedd Tiwbiau Tryledu ar y daenlen a roddwyd gan DEFRA i addasu mesuriadau, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n gyson ar draws y sir. Cyfeiriwyd at y tueddiadau mewn crynodiadau NO2 cymedrig blynyddol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf o fonitro. Amlygwyd y bu gostyngiad yn genedlaethol y llynedd oherwydd llai o draffig yn ystod y pandemig. Amlygwyd bod llygredd aer yng Ngheredigion yr ail isaf yng Nghymru.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Amlygodd y Cadeirydd bwysigrwydd cyfleu llwyddiant y sir i'r cyhoedd mewn datganiad i'r wasg.*

*Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad ac argymell i'r Cabinet y dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i gyflwyno i DEFRA yn unol â'r gofynion statudol.*

*Bu i'r Cabinet dderbyn argymhelliad y Pwyllgor.*

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd, adroddiad am y gwasanaeth Olrhain a Diogelu yng Ngheredigion ac esboniodd mai diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad am y gwasanaeth Olrhain a Diogelu yng Ngheredigion. Ym mis Gorffennaf 2022, sefydlwyd model newydd ond dros dro ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaeth Olrhain a Diogelu yn rhanbarth Hywel Dda. Cafodd y gwasanaeth newydd ei ffurfio mewn ymateb i'r amcanion a nodir yn "Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel - COVID-19: cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig" a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyllid Olrhain Cysylltiadau ostwng yn fawr yn 2022-23 h.y. bydd y gyllideb honno yn cyfateb i 40% o'r hyn a gafwyd ar gyfer 2021/22. Oherwydd bod y gyllideb yn llai a bod nifer y staff wedi gostwng, mae Gwasanaethau Profi, Olrhain a Diogelu Sir Benfro a Cheredigion wedi uno er mwyn sicrhau arbedion maint a meithrin cydnerthedd ar draws y ddau awdurdod lleol. Mae'r tîm cyfun yn gweithio ochr yn ochr â gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu Sir Gaerfyrddin. Dywedwyd bod gan Geredigion dîm tracio ac olrhain effeithiol iawn yn ystod y pandemig ac ers hynny, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cafodd yr aelodau y cyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y swyddogion. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:*

- *Yn dilyn y gyfarwyddeb a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd ffocws y tîm tracio ac olrhain bellach ar y rheini sydd fwyaf agored i niwed yn y gymuned. Roedd cyllid wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn arall i barhau â'r gwasanaeth hwn.*
- *Gan fod profi yn y gymuned wedi dod i ben yn 2022, codwyd pryderon bod llai o bobl yn barod i brofi gan fod pecynnau profi gartref yn ddrud i'w prynu.*
- *Ym mis Rhagfyr, roedd cyfradd achosion Covid-19 wedi cynyddu ychydig nad oedd yn syndod, fodd bynnag, roedd y ffigurau wedi gostwng eto erbyn mis Ionawr.*
- *Roedd dau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Arbenigol a gafodd eu hadleoli fel mater o flaenoriaeth yn ystod y pandemig i gefnogi'r tîm Covid wedi dychwelyd yn rhannol i'w rôl o fewn Tîm Diogelu'r Cyhoedd.*

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad am gyllideb ddrafft 2023/2024 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn ac esboniodd fod y gyllideb yn seiliedig ar setliad dros dro Llywodraeth Cymru a bod disgwyl setliad terfynol Llywodraeth Cymru ar 28 Chwefror 2023. Dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod yna groeso i'r cynnydd uwch na'r disgwyl yn setliad dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer 23/24, sef 8.1% (ar sail ariannol). Ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24, dylai hyn sicrhau bod modd diogelu'r gwasanaethau i breswylwyr Ceredigion gymaint ag y bo modd ond cydnabuwyd bod hon yn Gyllideb hynod o heriol o hyd.

<u>**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**</u>

1. *Roedd wedi ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn yr adroddiad ar y gyllideb yn Atodiad A.*
2. *Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn..*
3. *Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn..*
4. *Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ynghylch ffioedd a chostau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, ac eithrio bod y Pwyllgor Craffu yn argymell bod y Cabinet yn cytuno i ymestyn penderfyniad y Cabinet ar 22 Chwefror 2022 am flwyddyn arall ar gyfer cyfnod 2023/2024, fel a ganlyn:*

    ***Rhoi awdurdod dirprwyedig i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros y Canolfannau Hamdden a Lles, i amrywio'r Taliadau a'r Ffioedd ar gyfer y Canolfannau Lles yn 2023/2024, a chynnal cynigion hyrwyddo am gyfnodau cyfyngedig/tymor byr.***
5. *Pleidleisiodd rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor. Felly mae'r Pwyllgor yn argymell cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/2024, sef opsiwn 3b) yn yr argymhellion:*

    ***3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.101m ar gyfer 23/24.***

6. *Ni ddarparwyd unrhyw adborth arall gan y Pwyllgor ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24.*

Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2023, ystyriwyd fersiwn ddrafft Strategaeth Dai Leol 2023-2028. O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, roedd gan awdurdodau lleol swyddogaeth strategol o ran y modd yr oedd y farchnad dai leol yn gweithio. Un o'r prif ffyrdd yr oeddent yn cyflawni'r swyddogaeth honno oedd drwy greu Strategaeth Dai Leol. Y nod oedd i'r awdurdod lleol arwain y gwaith o ddatblygu dull gweithredu ar gyfer tai ymhob sector a sicrhau bod tai priodol a gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu cyflenwi er mwyn bodloni'r anghenion lleol.

Bu'r Strategaeth Dai Leol bresennol ar waith ers 2018 ac roedd yn gynllun ar gyfer 5 mlynedd. O ystyried hyn, cafodd y Strategaeth Dai ei hadolygu a'i diweddaru. Roedd Uwch Swyddogion y Tîm Tai, partneriaid allweddol a Rheolwyr Corfforaethol pob un o'r Pyrth yn rhan o'r adolygiad a gwnaed llawer o waith i gasglu a dadansoddi data.

Roedd y Strategaeth Dai ddiwygiedig yn amlinellu'r weledigaeth am 5 mlynedd arall:
'Bydd digon o lety addas a chynaliadwy ar gael i fodloni anghenion trigolion y sir yn awr ac yn y dyfodol.'

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**

*Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD ar y canlynol:*

*(i) argymell y dylai'r Cabinet gymeradwyo fersiwn ddrafft y strategaeth a dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol ar y strategaeth; a*

*(ii) dylai'r Cabinet ystyried argymhelliad yr Aelodau sy'n nodi y dylai'r Cabinet ysgrifennu at Ms Elin Jones, Aelod yr Etholaeth yn Senedd Cymru, a'r pedwar Aelod Rhanbarthol yn Senedd Cymru, i fynegi pryder nad oedd yn bosib darparu digon o dai i ddiwallu'r anghenion yng Ngheredigion gan fod y Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried effaith datblygiadau arfaethedig ar ffosffadau ac ansawdd y dŵr o fewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Roedd hyn yn cael effaith sylweddol ar yr argyfwng tai presennol a dylid ystyried y mater.*

*Cytunodd y Cabinet i ysgrifennu at Ms Elin Jones, Aelod yr Etholaeth yn Senedd Cymru, a'r pedwar Aelod Rhanbarthol yn Senedd Cymru, ac adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yn aros am ymateb.*

Mae Gweithgor Craffu Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru yn parhau i graffu ar waith Bwrdd Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru (Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn flaenorol). Mae'r trefniadau presennol yn cael eu hadolygu a byddant yn cael eu trafod yn y cyfarfod sydd i'w gynnal ym mis Medi 2023.

Fel rheol, cynhelir y cyfarfodydd y prynhawn ar ôl pob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Cadeirydd, Cyfarwyddwr a Rheolwr Rhaglen y Sir, a'r Cyfarwyddwyr Arweiniol, yn mynd i'r cyfarfodydd hyn. Gweithgor Craffu ar y Cyd sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion (a Chyngor Sir Powys yn flaenorol) yw hwn. Daeth Cyngor Sir Powys â'i aelodaeth i ben ddiwedd 2019.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Mae hwn yn gyfle i bwyso a mesur swyddogaethau amrywiol, i graffu ar y penderfyniadau a wnaed, ac i ystyried a ellir mynd ati i wella gwasanaethau ac i wneud argymhellion i'r perwyl hwn. Cyfarfu'r Gweithgor bedair gwaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.*

# Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar bum achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2022/2023.



**Y prif faterion a drafodwyd**

Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddaru ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

**Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a Chanolfan Eos a Chanolfan Aeron (yr Unedau Cyfeirio Disgyblion)**
Cafodd y Pwyllgor adroddiad am y pum gwasanaeth o fewn Porth Cymorth Cynnar, sef -

- Y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar
- Y Gwasanaeth Cymorth ac Atal
- Gwasanaeth y Canolfannau Lles
- Y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Canolfan Eos a Chanolfan Aeron

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
Cytunodd y Pwyllgor:

i. i nodi'r diweddariad a ddarparwyd;
ii. i longyfarch y ddau wasanaeth ar eu gwaith rhagorol;
iii. y dylai Aelodau'r Pwyllgor ymweld â Hyfforddiant Ceredigion yn y dyfodol agos; ac
iv. ar ôl trafod â'r staff yng Nghanolfan Eos a Chanolfan Aeron, y dylai'r Aelodau ymweld â Chanolfan Eos a Chanolfan Aeron ar adeg sy'n gyfleus i bawb.

**Hunanarfarnu a Chynllunio Gwelliant - Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant**
Cyflwynwyd yr adroddiad i sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Craffu yn deall prosesau hunanarfarnu'r Gwasanaeth a'u rôl yn y prosesau hyn. Rhoddwyd gwybod bod gan y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant drefniadau ar waith ar gyfer hunanarfarnu cyson. Mae'r trefniadau hyn yn rhan o'r cynllunio busnes corfforaethol. Cyflwynwyd grid i ddarlunio'r prosesau hunanarfarnu a rôl y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Cymunedau sy'n Dysgu yn y prosesau hynny.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

i. sefydlu ffrwd waith sydd yn ymateb i dair blaenoriaeth Cynllun Busnes Lefel 1 y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant; a
ii. sefydlu ffrwd waith i gyfrannu tuag at brosesau hunanwerthuso'r gwasanaeth.

**Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru – Cynllun Busnes**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddiweddariad ar flaenoriaethau'r bartneriaeth addysg rhwng Powys a Cheredigion ar gyfer 2022-23. Dywedwyd bod Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru rhwng Awdurdodau Lleol Powys a Cheredigion wedi'i lunio ym Medi 2021. Roedd yn seiliedig ar Femorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y ddwy sir.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru ar gyfer 2022-23, fel y'i cyflwynwyd.

**Diweddariad ar Ysgol Ardal newydd yn Nyffryn Aeron**

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am y broses dendro. Dywedwyd bod Corff Llywodraethu Cysgodol ar gyfer yr ysgol newydd yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r diweddariad a roddwyd, ond gwnaeth yr Aelodau annog fod y gwaith yn dechrau cyn gynted â phosib yn sgil y cynnydd mewn costau deunyddiau adeiladu yn dilyn y pandemig.

**Cwricwlwm i Gymru – diweddariad**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet wybod y byddai ysgolion cynradd Cymru yn cychwyn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ym Medi 2022, gyda'r sector uwchradd yn gweithredu'n statudol o Fedi 2023 ymlaen. Rhoddodd Cydlynydd y Cwricwlwm i Gymru ddiweddariad am yr amrywiaeth o gefnogaeth a roddir i ysgolion wrth weithredu, a'r blaenoriaethau sy'n parhau ar gyfer 2022-23.

**Diweddariad ar lafar am y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim**

Byddai Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig prydau ysgol am ddim o dymor yr hydref ymlaen a hynny i bob plentyn yn y dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i gynnig Prydau Ysgol am Ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd ledled Cymru, gan ddechrau gyda'r dosbarthiadau Derbyn o fis Medi 2022 ymlaen. Mewn ymateb i'r cynnydd mewn costau byw ar hyn o bryd, roedd hwn yn gam cadarnhaol ymlaen i sicrhau na fydd yr un plentyn yn teimlo'n llwglyd yn yr ysgol. Byddai hyn hefyd yn mynd i'r afael â thlodi yn ein Sir.

O ddydd Llun 5 Medi 2022 ymlaen, bydd pob plentyn yn y dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yng Ngheredigion yn cael cynnig Prydau Ysgol am Ddim, gan ymestyn y cynnig y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol i'w wneud erbyn mis Medi.

**Aelod Cyfetholedig ar gyfer Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion - Rhieni-Lywodraethwyr**

Cynhaliwyd ymarfer recriwtio yn ystod mis Mai 2022 i benodi dau Riant-lywodraethwr i'r Pwyllgor.

**Adroddiad Trosolwg y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2021 – 2022**
Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi trosolwg a diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o ran Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Gwnaeth y Pwyllgor nodi'r adroddiad.

**Canlyniadau TGAU a Lefel A 2022**
Oherwydd pandemig Covid-19, nid oedd modd cymharu canlyniadau 2022 â chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
CYTUNWYD nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth a llongyfarch y disgyblion, yr athrawon a'r staff ar y canlyniadau gwych hyn yn dilyn y pandemig.

**Fframwaith Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru**
Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn rhannu gwybodaeth am ddogfen allweddol parthed Gwella Ysgolion a fydd â goblygiadau o ran sut mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn cael ei weithredu yng Ngheredigion. Byddai'r ddogfen yn statudol o fis Medi 2024. Nod y ddogfen oedd:

- Cryfhau effeithiolrwydd hunanwerthuso a gwella cynllunio o fewn ysgolion.
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion a rhoi system gymorth debyg yn ei lle heb gyhoeddi categorïau ysgol.
- Cryfhau a darparu eglurder ynghylch y gwahanu rhwng gweithgareddau gwerthuso / gwella a'r system atebolrwydd
- Neilltuo rolau a chyfrifoldebau gwahanol gyrff yn glir mewn system hunan-wella

Mae'r canllawiau yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i ysgolion ac eraill yn y system addysg ei wneud a'r hyn y dylai ysgolion ac eraill ei wneud o dan y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae rhwymedigaeth statudol y tu ôl i'r cyfeiriadau at yr hyn y mae'n 'rhaid' i ysgolion ac eraill ei wneud. Arfer gorau, yn unol â'r canllawiau, yw'r camau gweithredu hynny a nodir fel yr hyn y 'dylai' ysgolion ac eraill ei wneud. Drwy gyhoeddi canllawiau gwella ysgolion ar sail anstatudol nawr, rydym am i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn ac awdurdodau esgobaethol weithredu a phrofi'r dulliau gwella ysgolion ac atebolrwydd sy'n cael eu nodi ynddynt. Byddant wedyn yn gwerthuso eu heffaith. Ar ôl hynny, rydym yn bwriadu diweddaru'r canllawiau, gan adeiladu ar y dysgu yn 2022 i 2023 a 2023 i 2024 a'u cyhoeddi ar ffurf canllawiau statudol a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2024. Yna amlinellwyd rhestr o'r prif negeseuon i'r Aelodau.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**Arolygiadau Estyn, Tymor yr haf 2022**
Rhoddwyd adroddiad i'r Pwyllgor am y tair ysgol a oedd wedi'u harolygu'n ddiweddar.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd a bod yr adroddiadau'n gadarnhaol iawn. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r holl ysgolion ar eu cyflawniadau.

**Y llwybr cyfeirio cyfredol i gael diagnosis o awtistiaeth**
Diben yr adroddiad oedd darparu gwybodaeth am y llwybr cyfredol i gael diagnosis o awtistiaeth, nodi'r heriau ac amlinellu'r modd yr oedd y Gwasanaethau Ysgolion yn bodloni anghenion y plant a'r bobl ifanc a oedd wedi derbyn diagnosis a'r rhai a oedd yn aros am hynny. Tynnwyd sylw at y ffaith bod awtistiaeth yn gyflwr gydol oes a bod symptomau pob unigolyn yn wahanol.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch eu meysydd o ddiddordeb ac atebwyd y rhain yn eu tro gan y Swyddogion.
Y prif bwyntiau a godwyd oedd y canlynol:

- Pwysleisiwyd nad oedd diagnosis o awtistiaeth yn effeithio ar yr addysg a oedd yn cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc yng Ngheredigion, ac mewn gwirionedd, byddai cymorth yn cael ei roi ar waith ar unwaith os byddai unrhyw symptomau o awtistiaeth yn cael eu nodi..
- Roedd y Tîm Asesu Cyfathrebu Cymdeithasol (SCAT) yn cwrdd bob 6 wythnos i drafod atgyfeiriadau. Y gwasanaeth iechyd oedd yn arwain y gwaith hwn oherwydd mai iechyd oedd yr unig gorff a fedrai ddarparu diagnosis o awtistiaeth. Roedd yn allweddol bwysig bod yn ofalus er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y diagnosis cywir.
- Meddygon Teulu a Nyrsys Ysgolion ddylai fod yn gwneud yr atgyfeiriadau.
- Roedd gan 70% o ysgolion Ceredigion Dystysgrifau Ymwybyddiaeth am Awtistiaeth ac Eiriolwyr Awtistiaeth (byddai'r rhestr yn cael ei rhannu â'r Aelodau maes o law).
- Codwyd pryderon am restrau aros hir y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Anogwyd yr aelodau i godi'r mater hwn ar bob cyfle posibl. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal Adolygiad Capasiti lle nodwyd bod Byrddau Iechyd yn genedlaethol yn ei chael hi'n anodd ymdopi ag asesiadau ac felly, roedd addewid wedi'i wneud am gyllid ychwanegol.
- Codwyd pwysigrwydd cynhwysiant er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc y cyfle cyfartal i dderbyn addysg prif ffrwd yn y lle cyntaf. Os na fyddai hynny'n addas, roedd unedau arbenigol ar gampysau rhai ysgolion a chan eu bod yn agos, roedd modd i'r plant a'r bobl ifanc dderbyn gwersi prif ffrwd lle bo hynny'n briodol.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Cytunwyd i nodi'r canlynol:

1. Roedd y Pwyllgor wedi cael gwybod am y llwybr cyfeirio cyfredol i gael diagnosis o awtistiaeth yng Ngheredigion.

2. Roedd y Pwyllgor wedi cael gwybod am sut yr oedd Gwasanaethau Ysgolion yn bodloni anghenion plant a oedd wedi cael diagnosis o awtistiaeth neu'n aros i gael diagnosis.

**Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd**
Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bod y bwlch o ran cyrhaeddiad a chyfleoedd wedi lledu rhwng dysgwyr difreintiedig a'r rhai mwy breintiedig yn dilyn Covid-19. Mae'r canlyniadau ar lefel TGAU yn awgrymu fod y bwlch amddifadedd a geir ym myd addysg yng Nghymru yn gyfystyr â thua 24 mis o gynnydd addysgol. Dim ond ehangu'r bwlch o ran cyrhaeddiad a'r cyfleoedd addysgol a fodolai eisoes y mae'r argyfwng costau byw. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, wedi siarad yn rheolaidd am ei ymrwymiad i gefnogi dysgwyr bregus a difreintiedig. Rhoddwyd trosolwg o'r sefyllfa bresennol fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch eu meysydd o ddiddordeb ac atebwyd y rhain yn eu tro gan y Swyddogion. Y prif bwyntiau a godwyd oedd y canlynol:

- Er bod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cefnogi ysgolion, codwyd pryderon fod y gyllideb yn cael ei thorri o hyd. Byddai'r £8 miliwn yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion yn gostwng yn sylweddol wrth i gyflogau staff ysgolion a chostau ynni gynyddu. Roedd y Swyddogion eisoes wedi codi eu pryderon â Llywodraeth Cymru..
- Dywedwyd y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cyfle cyfartal i lwyddo yn yr ysgol. Roedd y strategaeth yn cynnwys nifer o bwyntiau ymarferol i gefnogi teuluoedd o gefndiroedd difreintiedig, er cydnabuwyd bod cyllid yn ffactor.
- Ystyriwyd bod presenoldeb mewn ysgolion yn bwysig iawn am nifer o resymau. Yn dilyn gwaith gan yr adran, roedd presenoldeb yn yr ysgolion cynradd wedi gwella ond roedd angen gwneud rhagor o waith o ran presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd.
- Ni ddylai'r un plentyn na pherson ifanc deimlo'n oer yn yr ystafell ddosbarth. Os oedd plant neu bobl ifanc yn teimlo'n oer, dylai'r Aelodau anfon tystiolaeth at swyddogion yr adran.
- Er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer profiad gwaith a'u gyrfaoedd yn ddiweddarach mewn bywyd, roedd cynllun peilot wedi'i gynnal yn Aberteifi lle'r oedd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned a'r busnesau yn lleol. Hefyd, roedd y cwricwlwm newydd yn caniatáu i'r ysgolion ddysgu sgiliau bywyd gan gefnogi'r bobl ifanc i fod yn annibynnol. Soniwyd hefyd am rwydwaith Seren, menter gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cefnogi pobl ifanc i wireddu eu dyheadau a chyrraedd eu llawn botensial yn academaidd.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
Cytunodd y Pwyllgor ynghylch y canlynol:

1. mabwysiadu cynnwys Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion ar gyfer ysgolion.
2. bod adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wneir o ran Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion yn cael ei gyflwyno i'r ysgolion a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu.

**Cofnodion Cyfarfodydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion**
Cafodd Cofnodion Cyfarfodydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Roedd sicrhau bod barn pobl ifanc yn rhan o'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion yn cael ei ystyried yn rhywbeth pwysig iawn.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Cytunwyd y byddai cofnodion Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu a'r Cabinet, er gwybodaeth, bob tymor.

**Diweddariad am y grantiau sydd ar gael i ysgolion**
Cafodd y Pwyllgor wybod am y grantiau a oedd ar gael i'r ysgolion. Dywedwyd y byddai'n well gan yr ysgolion yn gyffredinol dderbyn cymorth o ran eu cyllid craidd yn hytrach na derbyn grantiau. Dywedwyd bod yr ysgolion wedi derbyn grantiau cynnal a chadw dros y blynyddoedd i wella adeiladau. Roedd gan bob ysgol lyfryn cytundeb a oedd yn amlinellu'n glir yr hyn yr oedd yr ysgol a'r awdurdod yn gyfrifol amdano. Hefyd, roedd gan yr awdurdod raglen cynnal a chadw ar waith a oedd yn seiliedig ar yr arolwg a gynhaliwyd gan Faithful+Gould. Fel rhan o'r rhaglen honno, roedd gwaith brys yn cael blaenoriaeth. Cynghorwyd yr Aelodau i gysylltu â'r adran addysg pe byddent yn teimlo bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw brys mewn ysgol benodol a bod y gwaith hwnnw heb ei gynnwys yn y rhaglen. Tynnwyd sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd denu busnesau i dendro am y gwaith. Serch hynny, pe na fyddai'r grantiau wedi'u defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, byddai trefniadau eraill yn cael eu rhoi ar waith.

Adroddwyd na fyddai cyllid ar gael ar gyfer Band C Ysgolion yr 21ain Ganrif na'r rhaglen Colegau. Roedd gofyn i'r awdurdod gyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth Cymru o fewn y 18 mis nesaf yn nodi'r angen am unrhyw estyniadau, gwaith sylweddol y tu hwnt i raglen gyfalaf yr awdurdod neu ysgolion newydd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r sefyllfa bresennol.

**Adroddiad ar y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24**
Cyfarfu'r Pwyllgor i ystyried y cyllidebau ar gyfer y gwasanaethau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

1. Roedd wedi ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn yr adroddiad ar y gyllideb yn Atodiad A.
2. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
3. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.

4. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ynghylch ffioedd a chostau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
5. Pleidleisiodd rhan fwyaf Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor. Felly mae'r Pwyllgor yn argymell cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/2024, sef opsiwn 3b) yn yr argymhellion:
   3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.101m ar gyfer 23/24.
6. Cytunwyd i argymell y canlynol i'r Cabinet: os bydd rhagor o arian ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru ac nad oes amodau ynghlwm wrtho, dylid neilltuo'r arian hwnnw ar gyfer ysgolion.

**Cynllun Gweithredu - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32**
Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32. Yn unol ag adran 84, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, roedd disgwyl i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Cytunodd y Pwyllgor i argymell i'r Cabinet:-

i. i fabwysiadu Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, a'i weithredu o ddechrau tymor yr haf 2023, a'i adolygu'n flynyddol;
ii. y byddai'r Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro drwy gyfrwng cyfarfodydd Fforwm Iaith y CySGA a'r pwyllgor Dyfodol Dwyieithog;
iii. y byddai adroddiad blynyddol am y cynnydd a wnaed o ran Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Iaith, y Pwyllgor Dyfodol Dwyieithog, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet; ac
iv. yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, y byddai'r Awdurdod Lleol yn dechrau ar y broses o newid cyfrwng iaith y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion Comins Coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Chei Newydd. Yn ogystal, byddai ymgynghoriad parthed newid oed derbyn mewn tair ysgol sef Comins Coch, Padarn Sant a Chei Newydd yn cyd-fynd â hyn. Byddai'r cyfnodau ymgynghori hyn yn dechrau ar 15 Medi 2023.

**Egwyddorion isadeiledd cynaliadwy ar gyfer addysg**
Ym mis Tachwedd 2018, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chod statudol o ran trefniadaeth ysgolion a chyflwynodd gymal rhagdybiaeth yn erbyn cau ar gyfer ysgolion gwledig. Roedd y diffiniad ysgol wledig wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio categorïau gwledig a threfol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac o ganlyniad, roedd 28 o ysgolion yng Ngheredigion wedi'u diffinio fel ysgolion gwledig.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 15 Medi 2021, diddymwyd y Polisi Adolygu Ysgolion a mabwysiadwyd y llawlyfr i gyd-fynd â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd gweithdy i gyflwyno'r llawlyfr. Gan fod cyfnod y ddogfen Datblygu Addysg wedi dod i ben yn 2020, roedd yn amserol cyflwyno dogfen a oedd yn amlinellu egwyddorion y gwasanaeth i'r dyfodol.

Ar hyn o bryd, roedd y cod statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddilyn cyfres o weithdrefnau a gofynion manylach wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, ymgynghori ar y cynnig hwnnw, a phenderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig i gau ysgol wledig ai peidio. Cyn penderfynu a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad, byddai'n rhaid paratoi a chyflwyno papur cynnig i'r Ffrwd Waith Cymunedau sy'n Dysgu. Yn dilyn cyfarfod o Ffrwd Waith y Pwyllgor Craffu, byddai'r papur cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel y gellid ystyried a ddylid:

a) Cymeradwyo'r cynnig a mynd ati i gynnal ymgynghoriad statudol
b) Gwrthod y cynnig
c) Cynnig opsiwn amgen

Byddai'r papur cynnig wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu cyn y byddai Ymgynghoriad Statudol yn cael ei gynnal.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

i. argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r Ddogfen Egwyddorion Isadeiledd Cynaliadwy (Atodiad A) ar gyfer addysg; a
ii. cadarnhau aelodaeth y ffrwd waith trawsbleidiol a fyddai'n trafod unrhyw bapurau cynnig a ddaw gerbron yn unol â'r Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion.

**Diweddariad mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Amlinellwyd y wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor:

- Y cefndir cyfreithiol
- Nifer y plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref
- Y darlun yng Ngheredigion
- Ymweliadau cartref a gwblhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf
- Nifer y disgyblion sydd wedi cael eu haddysgu gartref
- Nifer y disgyblion sydd wedi dychwelyd i'r ysgol
- Dyletswyddau
- Gorchmynion Mynychu'r Ysgol
- Diogelu
- Gweithio gyda Rhieni

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r canlynol:
(i) niferoedd presennol y plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Ngheredigion; a'r
(ii) modd y mae'r Gwasanaeth Ysgolion yn adolygu darpariaeth y plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

**Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am y newidiadau diweddar o ran Addysg Ryw a'r broses o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol bolisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb addas y gallai'r ysgolion ei fabwysiadu a'i addasu. Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:

- Y Cefndir
- Beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?
- Y Cynnwys Polisi

- Y Sefyllfa Bresennol
- Cefnogaeth i Ysgolion

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

Cytunwyd i wneud y canlynol:

i. mabwysiadu cynnwys Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Ceredigion; a

ii. nodi y byddai unrhyw sylwadau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel newidiadau i'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

**Ffrydiau Gwaith**

Sefydlodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu bedair ffrwd waith fel rhan o broses gynllunio'r flaenraglen gwaith. Bwriad y ffrydiau gwaith hyn oedd codi ymwybyddiaeth o amrywiol feysydd, darparu hyfforddiant, archwilio pynciau yn fanylach a nodi agweddau yr oedd angen craffu arnynt ymhellach. Cafodd y ffrydiau gwaith eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod 2022. Mae aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu wedi'u rhannu rhwng y ffrydiau gwaith ac mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynd i bob un o'r tair ffrwd waith gan gyfrannu atynt.

Dyma dair ffrwd waith y Pwyllgor:

- Sicrhau bod y blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.
- Sicrhau tegwch i bob disgybl
- Sicrhau seilwaith effeithiol ac effeithlon i fodloni ein blaenoriaethau

Mae'r ffrydiau'r gwaith yn adrodd yn ôl i'r prif Bwyllgor.

Fel rhan o'r gwaith, ymwelodd y ffrwd waith â dwy ysgol gynradd yn y sir. Yn yr ysgol gyntaf, cafodd yr Aelodau'r cyfle i ddysgu am y daith yr oedd yr ysgol wedi bod arni o ran mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru. Hefyd, aethpwyd ag aelodau'r ffrwd waith ar daith o amgylch yr ysgol, gan ymweld â dosbarth ym mhob blwyddyn, o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 lle cawsant y cyfle i arsylwi'r gwersi ac i siarad â'r athrawon a'r disgyblion. Yna, cafodd yr Aelodau'r cyfle i drafod yr hyn yr oedden nhw wedi ei weld ac i ofyn rhagor o gwestiynau i'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth.

Yn yr ail ysgol, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y Pennaeth am y daith yr oedd yr ysgol wedi bod arni wrth fabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru. Aethpwyd ag aelodau'r ffrwd waith ar daith o amgylch yr ysgol, gan ymweld â phob dosbarth, o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6, lle cawsant y cyfle i arsylwi'r gwersi ac i siarad â'r athrawon a'r disgyblion. Yna, cafodd yr Aelodau'r cyfle i drafod yr hyn yr oedden nhw wedi ei weld ac i ofyn rhagor o gwestiynau i'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth.

Roedd Aelodau'r ffrwd waith yn ddiolchgar am y cyfle i ymweld ag Ysgol Plascrug ac Ysgol Bro Sion Cwilt lle cawsant gipolwg ar y ddwy ysgol a'r daith yr oeddent wedi bod arni wrth fynd ati i fabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd ar hyd y ffordd. Ymhlith y prif bwyntiau a nodwyd oedd y canlynol:

- Roedd y cwricwlwm yn annog yr ysgolion i gwestiynu'r hyn yr oeddent yn

- ei wneud.
- Roedd y cwricwlwm yn adeiladu ar yr arferion da a oedd eisoes yn bodoli.
- Roedd y cwricwlwm yn caniatáu i’r ysgolion ganolbwyntio ar y plentyn unigol.
- Roedd pwysigrwydd llais y disgybl yn cael ei amlygu.
- Roedd yr ysgolion yn ddiolchgar am y gefnogaeth yr oedd swyddogion y Cyngor yn ei rhoi.
- Roedd y cwricwlwm yn rhoi’r rhyddid i’r athrawon ddod i adnabod eu plant.
- Roedd y cwricwlwm yn caniatáu hyblygrwydd.
- Roedd y cwricwlwm yn cynnig gwell cyfleoedd i’r unigolyn gan eu paratoi nhw ar gyfer bywyd.

## Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Cyfarfu’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar chwe achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2022/2023.



**Y prif faterion a drafodwyd:**

Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a’i diweddaru ym mhob un o gyfarfodydd rheolaidd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

**Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan Ceredigion**
Eglurodd yr Aelod Cabinet mai argymhelliad Grŵp Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd Cyngor Sir Ceredigion (20/06/2022) oedd i aelodau’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ystyried y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu drafft cyn y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w mabwysiadu'n ffurfiol. Nodwyd bod y Strategaeth yn y broses o gael ei datblygu.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

Dyma’r prif bwyntiau a godwyd gan yr Aelodau:

- O ran cyllid, derbyniwyd £420,000 oddi wrth Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru (ULEVTF) yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Yn ogystal, dyrannwyd hyd at £300,000 o gyllid grant i’r Cyngor gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dyfarnwyd swm o £273,171 gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer cyflawni’r ail gam yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 (£204,878.20 (75%) o Gynllun Pwyntiau Gwefru Preswyl ar y Stryd (ORCS) Swyddfa Cerbydau Allyriadau Sero Llywodraeth y DU (OZEC), a darperir y £68,293 (25%) sy’n weddill fel arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru).
- Yn sgil ansicrwydd ynghylch a fyddai’r arian cyfatebol (25%) yn cael ei roi, roedd Llywodraeth Cymru’n ymwybodol nad oedd unrhyw fuddsoddwyr preifat yn y sir. Gobeithir y daw cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch yr arian maes o law. Roedd ystyried ffynonellau eraill o gyllid dal yn allweddol.
- Roedd Silversone Green Energy wedi cynorthwyo’r Cyngor yn dilyn proses tendro i osod a gweithredu’r pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer y cyhoedd ym Mhenmorfa a Chanolfan Rheidol. Mae cytundeb ar waith i

sicrhau bod y cwmni a'r Cyngor yn cael siâr o'r elw, a effeithiwyd gan y niferoedd isel a oedd yn eu defnyddio.

- Mae'r Strategaeth yn allweddol o ran nod y Cyngor i fod yn garbon net sero erbyn 2030 ac o ran cyflawni Cynllun Gweithredu Net Sero'r Cyngor. Byddai hefyd yn darparu mynediad i bobl sydd eisiau gwefru eu cerbydau.
- Ni roddwyd ystyriaeth i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn ysgolion gan gynnwys yr ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron; cadarnhaodd y swyddogion fod amod ar hyn o bryd y dylid darparu'r pwyntiau gwefru i'r cyhoedd.
- Yn amodol ar gynllunio, roedd yr Aelodau'n teimlo y dylai'r Cyngor ystyried cyfleoedd i greu ynni adnewyddadwy yn y sir.
- Codwyd pryderon na fyddai gosod y pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn lleihau nifer y cerbydau ar y ffyrdd yn unol â'r strategaeth drafnidiaeth 'Llwybr Newydd'.
- Codwyd pryderon ynghylch gallu'r Grid Cenedlaethol i ddarparu trydan oherwydd byddai hyn yn cyfyngu ar le y gellir gosod y pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Hefyd, codwyd pryderon ynghylch diogelwch y cyflenwad o ynni, yn enwedig yn yr hinsawdd bresennol, ac o le y daw'r ynni a ddarperir gan y gweithredwr rhwydwaith dosbarthu trydan (DNO).
- Allweddol fydd cydweithio er mwyn osgoi gosod nifer o bwyntiau gwefru trydan yn yr un lleoliad.
- Cododd gwestiwn ynghylch yr ystyriaeth a roddir i ffynonellau eraill o danwydd (e.e. HGO); cadarnhaodd y swyddogion eu bod yn ystyried opsiynau'n barhaus.
- Roedd prinder addysg ynghylch buddion cerbydau trydan i'r amgylchedd.
- Gan fod gwerthwyr ceir yn cofrestru cerbydau trydan yn ganolog ac nid o dan gyfeiriad y perchennog, nid oes cofnod cywir ar gael o ran nifer y cerbydau trydan sydd yn y sir.
- Y gwahanol fathau o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ac argaeledd mathau penodol ohonynt; esboniodd swyddog fod gwefrydd cyffredinol ar gael ynghyd ag addaswr ar gyfer gwahanol gerbydau. Datblygwyd apiau i gynorthwyo gyrwyr i chwilio am bwyntiau gwefru. Bydd angen ystyried sut i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd am y pwyntiau gwefru yn y dyfodol a bydd angen cynnwys gwybodaeth ar yr apiau.
- Wrth ymateb i ymholiad ynghylch y diffiniad o wefru preswyl ar y stryd, eglurodd y swyddogion fod hyn yn golygu darparu pwyntiau gwefru oddi ar y stryd ar gyfer cerbydau sydd ar y stryd.
- O safbwynt diogelwch, bydd yn bwysig rhoi digon o rybudd i'r cyhoedd am unrhyw waith sydd ar y gweill ar gyfer gosod y pwyntiau gwefru.
- Yn sgil pryderon ynghylch lleoliad y pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn Aberaeron, cytunodd y swyddogion i drafod y mater gyda'r aelod etholedig.
- Nodwyd bod problemau wedi codi o ran y pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym Mhenmorfa yn ymddangos ar yr ap ac esboniodd y swyddogion y byddant yn codi hyn gyda Silverstone Green Energy.
- Codwyd pryderon ynghylch y gwaith cloddio dwys sydd ynghlwm wrth fatris lithiwm.

- O ran gwefru ar y stryd, esboniodd y swyddogion fod rheoliadau ar waith ynghylch beth y gellir / beth na ellir ei wneud felly canolbwyntir ar sicrhau fod gan bobl y cyfleusterau i wneud hynny'n ddiogel. Bydd angen sefydlu system wefru maes o law.

Yn dilyn trafodaeth hir, cytunodd yr Aelodau i gymeradwyo cyflwyno'r Strategaeth a'r Cynllun i'r Cabinet cyn i'r Cyngor eu mabwysiadu'n ffurfiol.

**Adolygu'r Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - cymorth gan ymgynghorwyr**
Pwrpas yr adroddiad oedd gofyn i Aelodau'r Pwyllgor gefnogi'r ffordd ymlaen sy'n cael ei chynnig ar gyfer adolygu gwasanaeth gwastraff Cyngor Sir Ceredigion.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
Y prif bwyntiau a godwyd oedd y canlynol:

- Dilynir y prosesau arferol ar gyfer penodi'r ymgynghorwyr annibynnol a fydd yn cyflawni'r gwaith.
- Bydd angen fflyd newydd o gerbydau erbyn 2027-28 - oherwydd y dechnoleg gymhleth sydd ynghlwm wrth hyn a'r angen i ystyried opsiynau gwahanol, mae'n rhaid dechrau'r gwaith yn fuan.
- Amlygwyd y pwysau o ran staffio – er bod y tîm bron yn llawn, mae'r gwasanaeth yn rhedeg ar 70% o lefelau staffio oherwydd gwyliau blynyddol, hyfforddiant a salwch. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor yn medru osgoi problemau megis diffyg gyrwyr a thechnegwyr cerbydau nwyddau trwm (HGV) – mae rhaglenni hyfforddi ar gael i ddenu staff. Gan fod y gwasanaeth gwastraff yn flaenoriaeth i'r adran, rhennir aelodau staff sydd mewn rolau eraill ac sy'n meddu ar drwydded yrru cerbydau nwyddau trwm a defnyddir staff asiantaeth yn achlysurol.
- Codwyd pryderon bod yr un llwybrau'n cael eu heffeithio gan wyliau'r banc gan fod y mwyafrif ohonynt ar ddydd Llun. Gan nad oedd cytundebau'r staff yn cynnwys gweithio ar wyliau'r banc, awgrymwyd y dylid adolygu cytundebau'r staff ynghyd ag ystyried cynllun wrth gefn fel yr hyn a weithredir gan y gwasanaeth tân. Roedd y swyddog yn croesawu awgrymiadau pellach.
- Nododd yr Aelodau eu bod yn derbyn mwy a mwy o alwadau oddi wrth y cyhoedd ynghylch casgliadau gwastraff. Awgrymodd y swyddog y dylid cyfeirio'r cyhoedd at Clic neu wefan y Cyngor, lle gwneir ymdrech i rannu gwybodaeth ynghylch newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys dangosyddion perfformiad.
- Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch lorïau trydan, esboniodd y swyddog fod y staff wedi treialu lori a bod hyn wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar hyn o bryd roedd y lorïau gwerth tua £450,000 yr un. Dylid rhoi ystyriaeth i hyn os bydd y lorïau'n dod yn fwy fforddiadwy.
- Codwyd pryderon ynghylch lle y dylid anfon y gwastraff ar ôl ei gasglu; roedd y swyddog yn teimlo y dylai nifer o faterion gael eu hystyried yn rhyngwladol ond roedd gan y sir rôl i'w chwarae o ran dylanwadu ar newid. Nid oes digon o wastraff yng Ngheredigion i gyfiawnhau buddsoddi mewn technoleg i ddelio ag ef.

- Wrth i fwy o Awdurdodau Lleol fabwysiadu Glasbrint Llywodraeth Cymru, mae perygl y bydd llai o grantiau ar gael i'r Awdurdodau Lleol sy'n penderfynu peidio ei fabwysiadu.
- O ran a fyddai swyddogion yn gallu gwneud y gwaith arfaethedig a bennwyd ar gyfer ymgynghorwyr a chysylltu ag Awdurdodau Lleol sydd eisoes wedi mabwysiadu'r dull o ddidoli wrth ymyl y ffordd, dywedodd y swyddog nad oedd capasiti o fewn y tîm o gofio'r llwyth gwaith a'r cyfrifoldebau rheoli sydd gan y staff.
- Eglurodd y swyddog fod rhai peiriannau'n cael eu prydlesu. Roedd yn bwysig bod yn ddeinamig ac ystyried y cyfleoedd gorau sydd ar gael ar y pryd gyda chymorth yr adran Cyllid a Chaffael.
- Caiff y cerbydau eu harchwilio'n fewnol bob 6 wythnos, ac os oes angen caiff unrhyw waith pellach ei wneud yn lleol. Yr unig gerbydau a anfonir yn ôl at y gwerthwyr yw'r rhai sydd dan warant neu'r rhai sydd angen sylw arbenigol. Po hiraf y mae'r lorïau oddi ar y ffyrdd, y mwyaf yr effaith ar wasanaethau.
- Amlygwyd y ffaith y byddai newid i wasanaethau yn achosi problemau ac felly roedd ymgynghori â'r Aelodau sy'n cynrychioli trigolion Ceredigion yn allweddol drwy gydol y broses cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau. Derbyniwyd 1500 ymateb yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus diwethaf.
- Byddai effeithiolrwydd didoli wrth ymyl y ffordd mewn gwahanol ardaloedd (e.e. ardaloedd trefol o gymharu ag ardaloedd gwledig) a'r math o eiddo (tŷ amlfeddiannaeth o gymharu â thŷ sengl) a geir yn y sir yn amrywio.

Diolchodd yr Aelodau i'r staff a oedd wedi gweithio trwy gydol y pandemig COVID-19 a diolchwyd iddynt am eu hymdrechion parhaus.

Yn dilyn trafodaeth hir, cytunodd yr aelodau i'r canlynol:

- Nodi'r sefyllfa bresennol, y risgiau a amlinellwyd a'r angen i adolygu'r gwasanaeth.
- Nodi y bydd gwasanaeth ymgynghori annibynnol yn cael ei benodi i adolygu'r gwasanaeth, gan nodi y bydd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth gwastraff.
- Nodi y bydd y gwaith o adolygu'r gwasanaeth wedi'i gyfyngu, yn fras, i'r hyn a nodir yn yr adroddiad hwn.
- Cytuno y bydd y Pwyllgor yn cymryd rhan weithredol yn y prosiect a rhan flaenllaw o ran y broses ymgysylltu gwleidyddol a'r broses gymeradwyo.

**Trosolwg o'r Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol**

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor am y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddarperir, gan amlinellu'r canlynol:

· Gwasanaethau Craidd
· Swyddogaethau Allweddol
· Blaenoriaethau'r Gwasanaeth
· Gweithlu Rheng Flaen
· Dangosyddion Perfformiad
· Ceisiadau am Wasanaeth
· Cyllidebau- Hanesyddol

- Gostyngiadau Staff a'r Gyllideb
- Heriau a Blaenoriaethau

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunodd yr aelodau i nodi'r gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddarperir gan y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol.

**Cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth Economaidd**
Cyflwynwyd y wybodaeth am y cefndir, y camau gweithredu a oedd wedi'u rhoi ar waith yn y Strategaeth a'r meysydd ffocws ar gyfer y dyfodol fel yr amlinellwyd hwy yn yr adroddiad gan gynnwys yr heriau o ran y 4 maes ymyrraeth (Pobl, Lleoedd, Menter a Chysylltedd) yn y Strategaeth Economaidd.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Codwyd pryderon ynghylch a fyddai'r cyllid cyfalaf i ardaloedd gwledig ar ffurf grantiau oddi wrth Lywodraeth Cymru yn parhau ar yr un lefel â'r blynyddoedd diwethaf o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi lansio Cronfa Arloesi Arfor yn ddiweddar ond nid oedd y cyllid wedi'i ryddhau eto. Cydnabuwyd llwyddiant Cynghorau Ceredigion a Phowys o ran sicrhau Cytundeb y Fargen Lawn ar gyfer rhaglen buddsoddi cyfalaf a fyddai gwerth £110m.
- Roedd gwaith yn parhau yn Llanbedr Pont Steffan a Llandysul i ailddefnyddio asedau canol tref at ddibenion economaidd a gwella'r seilwaith gwyrdd.
- Ystyriwyd bod y prosiect a oedd yn caniatáu i gwmnïau sefydlu mentrau dros dro mewn siopau gwag yn bwysig i fusnesau annibynnol newydd. Y gobaith oedd y byddai'r prosiect hwn yn cael ei ehangu y tu hwnt i Aberystwyth.
- Roedd angen gwneud gwaith i ddatblygu canol y trefi, yn enwedig canol tref Aberystwyth, yn fannau aml-bwrpas. Dylid ystyried cyflwyno eithriadau o ran talu ardrethi annomestig fel ffordd o ddenu busnesau i ganol y trefi.
- Roedd yr adran yn gweithio'n galed wrth ymgeisio am grantiau gan wneud hynny weithiau o fewn amserlenni byr iawn. Roedd yn allweddol bwysig sicrhau bod unrhyw gyllid grant yn berthnasol i'r Strategaeth Economaidd.
- Dywedwyd bod rhaglen Helix Canolfan Bwyd Cymru ar hyn o bryd ar ail flwyddyn contract 3 blynedd gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y Ganolfan yn un o dair canolfan yng Nghymru. Awgrymwyd cynnal diwrnod agored i'r cyhoedd a busnesau.
- Yn dilyn pryderon ynghylch cysylltedd yn y sir, nodwyd bod gan 88% o eiddo/adeiladau fand eang â chyflymder o fwy na 30Mb ond roedd y sir yn parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiadau marchnad agored er mwyn deall y sefyllfa bresennol felly roedd y broses o gyflwyno cysylltiad ffeibr i'r adeilad wedi arafu ychydig. Roedd croeso i'r Aelodau gysylltu â'r Aelod Cabinet neu'r swyddogion os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau.
- Adeg y cyfarfod, roedd swydd y Swyddog Datblygu Trefi yn wag.
- Wrth ymateb i awgrymiadau y gellid gosod finyl ar ffenestri siopau gwag, dywedwyd bod cyfleoedd o dan y Rhaglen Trawsnewid Trefi i ymgeisio am

grantiau i wella adeiladau. Anogwyd yr Aelodau a oedd yn cynrychioli trefi i gysylltu â'r swyddogion i drafod hyn.

- Rhannwyd pryderon ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu canolbarth Cymru. Dywedwyd bod rhoi strategaeth glir ar waith yn allweddol wrth fynd ar drywydd cyfleoedd buddsoddi megis Bargen Dwf Canolbarth Cymru. Roedd gan y swyddogion berthynas dda â Llywodraeth Cymru ac roedd trafodaethau yn cael eu cynnal yn aml i sicrhau bod y polisïau o fudd i'r rhanbarth.

**Gwywiad Coed Ynn**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor mewn ymateb i'r argymhellion yr oedd y Pwyllgor wedi'u gwneud yn y flwyddyn fwrdeistrefol flaenorol.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Yn y lle cyntaf, bwriad rhaglen y prosiect oedd gwneud y gwaith dros gyfnod o 10 mlynedd gan wneud rhan fwyaf y gwaith rhwng y drydedd a'r chweched flwyddyn. Yn ddibynnol ar y gyllideb a'r contractwyr a fyddai ar gael, y gobaith oedd y byddai modd cwblhau'r gwaith yn gynharach ond byddai'r gwaith o ddelio â'r clefyd a drosglwyddir drwy'r awyr yn parhau.
- Roedd rhan fwyaf y coed wrth ymyl y priffyrdd a'r hawliau tramwy cyhoeddus ym mherchnogaeth perchnogion y tir. Nhw felly oedd yn gyfrifol am archwilio'r coed. Wrth gynnal archwiliadau, os byddai swyddog yn ystyried bod coeden ar dir, nad oedd yr awdurdod yn berchen arno, yn anniogel, byddai Hysbysiad Adran 154, Deddf y Priffyrdd yn cael ei roi i'r perchennog tir. Yn sgil hynny, byddai angen i'r perchennog tir hurio contractwyr o fewn 14 diwrnod. Byddai modd i'r Awdurdod gynorthwyo â'r broses honno, pe byddai angen.
- O ran blaenoriaeth, roedd y coed yn cael eu rhoi mewn 4 dosbarth yn ddibynnol ar y graddau yr oeddent wedi dirywio. Byddai hysbysiadau i berchnogion coed yn nosbarth 4 yn cael eu blaenoriaethu. Byddai rhai coed yn Nosbarth 1 a 2 yn gwrthsefyll y clefyd ac yn goroesi. Roedd hyn yn bwysig o ran cadw coed cynhenid.
- Pe byddai gorchymyn cadw coed ar waith, byddai angen cyflwyno hysbysiad ynghylch gwneud cais am gwympo coeden.
- Codwyd pryderon nad oedd dim ymgynghori wedi bod â'r sector amaethyddol yng Ngheredigion o ran cynorthwyo â'r gwaith o dorri coed mewn cyfnewid am y naddion pren. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch arbedion maint gan fod y gofynion o ran cwympo coed unigol yn wahanol iawn i'r gofynion o ran cyflawni'r gwaith yng nghyswllt coedwig.
- Teimlai'r Aelodau na fyddai'n gwneud synnwyr busnes cyflawni'r gwaith yn fewnol er y byddai hynny'n golygu yn yr hirdymor y byddai'r cyfarpar ym meddiant yr awdurdod.
- Er mwyn sicrhau bod gan bawb y cyfle i dendro am y gwaith, teimlai'r aelodau fod tryloywder yn allweddol wrth fynd ati i lunio'r matrics. Roedd fframwaith ar gyfer contractwyr gwaith coed wrthi'n cael ei ddatblygu a byddai digwyddiad cwrdd â'r contractwr yn cael ei gynnal i gynorthwyo â'r broses dendro ar-lein.

- Pe byddai mwy na 5 metr ciwbig o goed mewn un chwarter penodol yn cael eu torri i lawr heb drwydded cwympo coed, Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr asiantaeth gorfodi, fyddai'n cymryd camau.
- Oherwydd pryderon ynghylch diogelu'r cyhoedd, awgrymwyd y dylid rhoi gwybod i'r cyhoedd am y broblem gan bwysleisio mai cyfrifoldeb y perchennog tir oedd delio â choed yr effeithiwyd arnynt ar eu tir. Roedd yn allweddol mynd ar drywydd yr hysbysiadau a roddwyd er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

**Cynllun Gweithredu Sero Net - diweddariad ar y cynnydd**
Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed o ran y camau a oedd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Sero Net.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Cododd yr Aelodau bryderon nad oedd gan y grid ddigon o gapasiti i wasanaethu'r sir a chefnogi ymrwymiad yr Awdurdod i fod yn Sero Net erbyn 2030. Dywedwyd bod y mater hwn yn cael ei godi'n aml mewn cyfarfodydd a bod awdurdodau cyfagos yn ei godi hefyd. Roedd National Grid a Scottish Power yn eistedd ar fyrddau a oedd yn llunio cynlluniau ynni lleol. Serch hynny, prin oedd eu cyllidebau a byddent yn buddsoddi yn y mannau lle ystyrir bod angen gwneud hynny.
- Er bod gweithwyr yn teithio llai i'r gwaith am eu bod yn gweithio gartref, codwyd pryderon y byddai angen gwresogi mwy o gartrefi yn ystod y dydd yn nhymor y gaeaf. Dywedwyd bod yr allyriadau o weithio gartref yn cael eu hystyried yn Adroddiadau Allyriadau Llywodraeth Cymru.
- Roedd y trydan a oedd yn dod o'r paneli solar a osodwyd ar adeiladau'r Cyngor yn cael ei ddefnyddio gan yr adeiladau yn y lle cyntaf ac roedd gweddill y trydan yn cael ei anfon i'r grid. Os oedd yna daliad Tariff Cyflenwi Trydan ynghlwm, roedd y taliadau'n cael eu gwneud yn ganolog i'r awdurdod. Yn gyffredinol, roedd yn cymryd 10 mlynedd i adennill yr arian a fuddsoddwyd ynddo.
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad rheoli tir ynghylch Canolfan Rheidol ac Ysgol Bro Teifi; nid oedd y canfyddiadau wedi dod i law hyd yma. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi maes o law i fatris er mwyn storio'r ynni a oedd dros ben.
- Nodwyd bod y bwriad o ddod yn Sero Net erbyn 2030 yn uchelgeisiol o ystyried y sefyllfa ariannol. Ar hyn o bryd, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cosbi'r awdurdod am beidio â chyrraedd Sero Net erbyn 2030, ond dyma oedd yr amcan yn genedlaethol ar gyfer cyrff yn y sector cyhoeddus.
- O ran fflyd yr awdurdod, byddai'r posibilrwydd o drosi'r cerbydau i rai a oedd yn defnyddio Olew Llysiau wedi'i drin â dŵr (HVO), a oedd yn ddrutach, yn cael ei archwilio ynghyd â hydrogen. Nodwyd bod HVO 20% yn well na disel ar y cyfan ond fel yr oedd pethau, o ddefnyddio methodoleg Llywodraeth Cymru, byddai hyn yn arwain at welliant bach yn y ffigurau yn unig.
- Dywedwyd y byddai plannu coed yn cael ei ystyried yn yr hirdymor i wrthbwyso carbon ac am bob coeden a fyddai'n cael ei dorri ar dir yr oedd y Cyngor yn berchen arno oherwydd Gwywiad Coed Ynn, byddai 3 coeden yn cael eu plannu yn eu lle. O ran y ffigurau, roedd coed yn dod o dan y pennawd allyriadau ar y tir.

- Roedd awdurdodau lleol eraill yn defnyddio'r un system i gasglu data at ddibenion adrodd. Y gobaith y flwyddyn nesaf oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu gwell methodoleg fel y gallai awdurdodau gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa. Ar hyn o bryd, po fwyaf o arian a oedd yn cael ei wario, y mwyaf o garbon a oedd yn cael ei gynhyrchu.
- Nid oedd yr awdurdod ond yn medru adrodd ar ddaliadau tir y Cyngor. Roedd cyrff eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys tir yr oeddent yn berchen arno yn eu hadroddiadau nhw.

Cytunodd yr Aelodau i nodi'r cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran y camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Sero Net.

**Y diweddaraf am y sefyllfa o ran ffosffadau**
Rhoddwyd diweddariad manwl i'r Pwyllgor am y sefyllfa o ran ffosffadau a rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn.

**Rheoli Datblygu**
Roedd Archwilio Cymru wedi cwblhau arolwg o'r Gwasanaeth Cynllunio yng Ngheredigion. Roedd yr adroddiad yn nodi 10 argymhelliad yn ymwneud â threfniadau llywodraethu a gwella capasiti'r gwasanaeth. Ystyriodd y Pwyllgor ymateb y Cyngor a'r cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran pob un o'r argymhellion hyn.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
Disgwylid i'r trefniadau uchod wneud gwahaniaeth amlwg yn lefel yr ôl-groniad a'r amser y byddai'n ei gymryd i wneud penderfyniadau dros y 3-4 mis nesaf, ond roedd yn debygol o gymryd hyd at 12 mis i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro a derbyn yr adroddiadau diweddaru.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad am gyllideb ddrafft 2023/2024 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn ac esboniodd fod y gyllideb yn seiliedig ar setliad dros dro Llywodraeth Cymru a bod disgwyl setliad terfynol Llywodraeth Cymru ar 28 Chwefror 2023.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:
1. Roedd wedi ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn yr adroddiad ar y gyllideb yn Atodiad A.
2. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
3. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
4. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ynghylch ffioedd a chostau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, ac eithrio bod y Pwyllgor Craffu yn argymell i'r Cabinet bod Ffioedd a Chostau arfaethedig y Meysydd Parcio yn Nhregaron a Llandysul yn cael eu dileu, fel na fyddai dim costau am Barcio Ceir yn parhau yn y trefi hynny o 01/04/23 ac y dylai'r gost bosibl o £40,000 sy'n gysylltiedig â hyn gael ei ariannu o'r

Ddarpariaeth o £400k a neilltuwyd ar gyfer risgiau o ran Chwyddiant Cyflogau ac Ynni.

5. Pleidleisiodd rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor. Felly mae'r Pwyllgor yn argymell cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/2024, sef opsiwn 3b) yn yr argymhellion:
   3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.101m ar gyfer 23/24.
6. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn rhoi'r eitem ganlynol ar flaenraglen waith y Pwyllgor: Ystyried yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am.

**Gwasanaeth Casglu Gwastraff**
Bu i'r Cadeirydd alw cyfarfod arbennig i gael gwybod paham yr amharwyd ar y Gwasanaeth Casglu Gwastraff ym mis Rhagfyr 2022, a cheisio canfod ffordd ymlaen i ddatrys y materion sy'n effeithio ar y gwasanaeth.

Ystyriwyd y canlynol:

· Prif Faterion i'w Hystyried
- Lefelau Staffio
- Trefniadau Cytundebol
- Cyllideb Casglu Gwastraff
- Allanoli Posibl
- Cynnal a Chadw Fflyd
- Cyfathrebu
- Safleoedd Gwastraff Cartref
- Ymholiadau Clic

· Gwaith sy'n Mynd Rhagddo

· Opsiynau Posibl am y Dyfodol
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer datrysiad digidol
- Adolygiad o gontractau staff gweithredol (9-12 mis)
- Adolygiad o opsiynau cyflenwi amgen
- Lleihau pwysau adnoddau a chyllidebol ar y gwasanaeth
- Cynyddu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer casglu gwastraff

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
Cynigiwyd nifer o syniadau cyffrous ac arloesol a'r nod oedd darparu gwasanaeth cyson a fyddai'n cael ei fesur yn ystod gwyliau'r banc a chyfnod y Nadolig yn arbennig.

**Y diweddaraf am deithio llesol - Ebrill 2023 a defnyddio hen linellau rheilffordd ar gyfer seiclo / cerdded**
Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi diweddariad am yr hyn oedd wedi digwydd ers yr adroddiad / trafodaeth ddiwethaf. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar 1 Rhagfyr 2022 er mwyn darparu trosolwg o Deithio Llesol yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd dim ond tri Anheddiad Teithio Llesol sydd yng Ngheredigion a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (sef Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan) felly roedd yn ddymuniad i ymestyn hyn. Diolchwyd i'r gwasanaeth am ddatblygu'r gwaith i wella hygyrchedd Teithio Llesol a diogelwch ar gyfer y Sir.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a bu i'r Swyddogion, Yr Athro Stuart Cole CBE a'r Aelod Cabinet eu hateb. Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

**Rhwydwaith Bysiau Ceredigion**
Esboniwyd bod Llywodraeth Cymru yn rheoli cyfran fawr o'r system drafnidiaeth yng Nghymru a bod y diwydiant trafnidiaeth ar hyn o bryd yn wynebu amser heriol. Darparwyd trosolwg o gynnwys yr adroddiad gan gynnwys cyd-destun lleol ac ehangach. Gwahoddwyd yr Athro Stuart Cole CBE i rannu ei arbenigedd â'r Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r canlynol:
1. Y pwysau a'r sialensiau acíwt a niferus y mae'r diwydiant trafnidiaeth cyfan yn eu hwynebu, ac sydd ar eu gwaethaf yn lleol.
2. Y pwysau dilynol sy'n codi ar y Cyngor a'r Gwasanaeth er mwyn ceisio rheoli'r sefyllfa, sy'n cynnwys disgwyliadau'r rhanddeiliaid a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chymryd penderfyniadau a chamau gweithredu.
3. Y camau sy'n cael eu cymryd gan y Gwasanaeth i reoli'r sefyllfa a lleihau'r hyn a fydd yn orwariant arwyddocaol yn ystod y flwyddyn 2022/23.
4. Y dull gweithredu sy'n cael ei fabwysiadu gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb sydd wedi cael ei neilltuo.

## Bwrdd Perfformiad

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pum pwyllgor trosolwg a chraffu thematig yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad.

Mae hwn yn fforwm lle gall aelodau'r Bwrdd Perfformiad ddod ynghyd i:

- gael golwg cyfannol ar berfformiad y Cyngor;
- nodi ac ystyried materion trawsbynciol lefel uchel sy'n effeithio ar fwy nag un maes gwasanaeth e.e. diwygio lles;
- herio'n feirniadol meysydd perfformiad gwael; a
- nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau, risgiau i ddarparu gwasanaethau, a'r goblygiadau o ran adnoddau.

Mae'n gyfle i'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion nodi pynciau y mae angen i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu roi mwy o sylw iddynt a'u cynnwys yn eu blaenraglenni gwaith.

**Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu**
**Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu**